~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Rhif: 437
Tachwedd 2015
Pris: 70c



# Ceiliog Efydd i'r Codwr Cynnar

**Mewn seremoni yn Llundain ddechrau mis Hydref cafodd Dei Tomos, y newyddiadurwr a'r darlledwr o Nant Peris, ei anrhydeddu gyda phrif wobr y "British Guild of Agricultural Journalists". Mae Tlws Netherthorpe (ar ffurf ceiliog yn clochdar) yn cael ei gyflwyno'n flynyddol, a'r aelodau eu hunain sy'n enwebu rhai sy'n haeddiannol o'r wobr.**

Yn ôl geiriad yr enwebiad, rhoddir y wobr am "outstanding and sustained journalism", ac y mae'n braf cael nodi fod Dei wedi ei anrhydeddu am ei waith trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynhyrchu a chyflwyno y rhaglen Byd Amaeth ar foreau Sadwrn, a bwletinau boreol ar ffermio, i gyd ar Radio Cymru.

Yn y llun, gwelir Dei yn derbyn ei wobr gan Dr Matt Lobley, y gŵr gwâdd ar y noson.

**ECO'r Wyddfa**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr | Tachwedd 15 | Tachwedd 27 | Caeathro |
| Nadolig/Ionawr | Rhagfyr 6 | Rhagfyr 18 | Llanrug |

**RHIF 437**
**Tachwedd 2015**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i**
**Dafydd Whiteside Thomas**
**Bron y Nant, Llanrug**
**01286 673515**
**ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan grid 76 dylunio graffeg 07766956673

## LLYTHYRAU

6 Hendyrpeg, Tregarth, Bethesda, Gwynedd LL57 4NN
(01248 602140/07810476407
ebost: jan.jones6@hotmail.co.uk
2 Hydref 2015

Annwyl Olygydd

Mae'n bur debyg bod nifer o'ch darllenwyr yn mynychu'r Clwb Celf a Chrefft yn Caban, Brynrefail, ar fore dydd Mawrth. Mae hwn yn Glwb hynod lwyddiannus a chymdeithasol ac yn wir yn rhan o'r wythnos mae'r aelodau yn edrych ymlaen ato'n eiddgar.

Yn dilyn llwyddiant Ffair Grefftau Nadolig a gynhaliwyd yn Caban y llynedd, mae rhai o'r aelodau'n trefnu Ffair Grefftau eto eleni am ddeuddydd y tro hwn. Bydd y Ffair yn cael ei chynnal yn Caban Brynrefail ddydd Sadwrn, Tachwedd 14eg a dydd Sul, Tachwedd 15fed, rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn. Bydd cyfle i brynu anrhegion unigryw o safon uchel gan nifer o grefftwyr lleol, gan gynnwys gemwaith, cardiau, darnau o waith celf a thecstiliau. Bydd cyfle hefyd, wrth gwrs, i gael paned a chacen yng nghaffi Caban fydd ar agor gydol y 2 ddiwrnod. Bydd mynediad i'r Ffair yn rhad ac am ddim, a bydd croeso i bob un wnaiff alw heibio. Dewch yn llu i gefnogi

Gyda diolch
Janice Jones

---

Feidiog, 12 Maes Tegid, Y Bala LL23 7BF
5 Hydref 2015
Cymdeithas Brodwaith Cymru

Annwyl Olygydd

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £300 i fyfyrwyr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstiliau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'u gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Disgwylir i'r ymgeiswyr fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a threfnir darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn.

15fed o Ionawr yw'r dyddiad cau. I gael ffurflen gais neu os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Gwyneth Jones, Feidiog, 12 Maes Tegid, Y Bala LL23 7BF
feidiog12@gmail.com

Gyda diolch, Yn gywir
Gwyneth Jones (Ysgrifennydd)

---

78 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1LL
26 Medi 2015

Annwyl Olygydd,

Diolch i chi am gynnwys llun o'r hen fws Whiteway yn rhifyn mis Medi o'r Eco. Roedd yn bleser mynychu'r brifwyl, ond yn fwy o bleser cael teithio yno mewn steil!

Roedd y bws yn newydd i gwmni Whiteway (o Waunfawr, wrth gwrs) yn 1955. Bu i mi brynu DCC 125 yn 1982, a threuliais bron i chwarter canrif yn ei chael yn barod i deithio ar y lôn unwaith yn rhagor. Diau y bydd nifer o'ch darllenwyr wedi ei gweld sawl gwaith ers hynny gan fy mod yn ei defnyddio yn achlysurol er mwyn ail greu rhai o'r hen deithiau.

Ond tybed a oes rhai o ddarllenwyr brwd yr Eco yn cofio bod cwmni Whiteway wedi prynu dwy o'r rhain yn 1955, a'r ddwy yn union yr un fath â'i gilydd? CJC 925 oedd rhif y bws arall ac, yn anffodus, erys dim ond ychydig o luniau o honno. Felly, apêl sydd gen i...

Byddwn wrth fy modd pe byddai gan unrhyw un o'ch darllenwyr lleol (a thu hwnt!) luniau o DCC 125, CJC 925 neu hyd yn oed y ddwy gyda'i gilydd. Mi fyddwn yn fwy na pharod i dalu costau copïo i unrhyw un â fyddai garediced â chysylltu â mi gydag unrhyw lun ohonynt. Gellir cysylltu â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod neu drwy fy ffonio ar 07801 240512.

Diolch, mewn rhagdybiaeth o'ch diddordeb!

Yn gywir iawn,
John A. Lloyd Williams

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

Hydref

£20: Teulu Mrs Joan Williams, Llanrug – Pat, Vera, Keith ac Elaine; Mrs Eleanor Williams, Afallon, Llanrug.

£10: Ellen Roberts, 7 Afon Rhos, Llanrug

Tachwedd

£20: Iris, Gwyneth, Maldwyn a theulu'r ddiweddar Gwladys Jones, 9 Hafan Elan, Llanrug; Er cof am Wil Lôn bost (W.T. Roberts), Llanberis, oddi wrth Eunice a'r teulu; Teulu Helen Lloyd, Stryd Y Ffynnon, Llanberis; Iris Rees Jones a'r teulu, er cof am eu mam.

£10: Hilda a Les, Cwm-y-glo.

£5: Mrs Jennie Williams a Cissie Rowlands, Deiniolen, er cof am eu chwaer; Margaret Williams, 51 Nant y Glyn, Llanrug.

## Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon ar nos Fawrth, 17eg Tachwedd, am 7.30 o'r gloch. Y siaradwraig wadd fydd Sian Northey a thestun ei chyflwyniad fydd 'Corachod Digartref - Llen Micro a Phethau Eraill'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.

# Anrheg gan Griw Dydd Mawrth



Cafodd Antur Waunfawr anrheg annisgwyl yn ystod y mis pan gyflwynwyd siec am £500 iddynt gan Mr Gwyn Owen ar ran Criw Dydd Mawrth.

Daeth Criw Dydd Mawrth at ei gilydd ar gwrs golff Penmaenmawr yn ôl yn 2003, pan wnaeth pedwar ffrind (Myrddin Owen, Vivian Williams, Arwel Jones – tri aelod o Hogia'r Wyddfa – a'r actor John Ogwen) benderfynu chwarae golff bob dydd Mawrth o'r diwrnod hwnnw ymlaen. Erbyn 2012, roedd nifer y chwaraewyr wedi cynyddu i dros 100.

Ar y cychwyn roedd yr arian a gasglwyd yn mynd i enillydd y gêm, ond ar awgrymiad Bryn Terfel, un o'r selogion cynnar, dechreuodd y grŵp gasglu'r arian dros flwyddyn, ac yna rhannu'r cyfanswm rhwng achosion da lleol.

Eleni, dewiswyd yr Antur fel eu helusen. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer diwrnod arbennig allan i'r gweithwyr!

Hoffai Antur Waunfawr ddiolch o galon i Griw Dydd Mawrth am eu haelioni.

## Yn ystod y mis aeth heibio ....

- Cyhoeddwyd ystadegau am Ogledd Cymru gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi fod nifer yr unigolion yn hawlio budd-dal i lawr o 9,770 yn 2014 i 7,386 ym mis Medi eleni. Un o'r enghreifftiau a ddyfynnwyd oedd yn adlewyrchu'r gostyngiad hwn oedd y ffaith fod cant o swyddi wedi eu creu o'r newydd yng nghanolfan dementia Bryn Seiont Newydd yng Nghaernarfon. Wrth gwrs, rhaid cysidro unrhyw fath o ystadegau gyda phinsiad go helaeth o halen. Mae hyn yn arbennig o wir o gofio fod y llywodraeth presennol wedi newid amodau hawlio budd-dal sy'n golygu fod nifer dda o unigolion bellach yn anghymwys dan y rheoliadau newydd.
- Cafwyd y tro pedol gyda'r cyflymaf mewn hanes gan Gwmni MBI Hotels. Dyma'r cwmni a brynodd hen blasdy Glynllifon gyda'r bwriad o greu gwesty moethus ysblennydd a'i farchnata dan yr enw Wynnborn Hotel. Buan iawn y newidiwyd yr enw yn ôl i'r gwreiddiol yn dilyn beirniadaeth hallt gan nifer o unigolion a mudiadau. Ac yna, o fewn cwta wythnos, cafwyd tro pedol arall, ac ail-ddechrau hybu'r plasdy gan ddefnyddio'r enw Wynnborn. Sawl pedol arall fydd wedi ei throi erbyn i chi ddarllen hyn o lith tybed? Ar hyn o bryd mae Bil Amgylchedd Hanesyddol yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, a'r gobaith yw y bydd deddfwriaeth ynddo i warchod enwau gynhenid Gymraeg a Chymreig rhag cael eu newid i'r Saesneg.
- Bu'n fis o ddathlu hanesyddol i dim peldroed Cymru wrth iddynt gadarnhau eu hawl i gystadlu ym mhencampwriaeth peldroed Ewrop y flwyddyn nesaf. Er iddynt golli eu gêm yn Bosnia, roedd canlyniadau eraill yn y grŵp yn golygu fod eu taith i Ffrainc yn 2016 wedi ei sicrhau. Fu erioed y fath ddathlu ar ôl colli, ymysg y chwaraewyr a'r cefnogwyr!
- Ac i barhau ym myd chwaraeon, ac er i Gymru frwydro'n ymosodol ac egniol, roedd siom yn eu haros ym mhum munud olaf y gêm yn erbyn De Affrica, a daeth eu hymgyrch yng Nghwpan y Byd i ben.

**….. a'r mis i ddod**

- Dyma dymor yr eisteddfodau yn ein bro. Roedd Eisteddfod Ysgol Brynrefail yn cael ei chynnal fel roedd y rhifyn hwn yn cael ei osod. Bydd yr hanes yn ymddangos yn rhifyn nesaf yr "Eco". Mae eisteddfodau pentrefi Bethel a Phenisarwaun eisoes wedi eu cynnal a cheir adroddiadau a lluniau yn y rhifyn hwn. Gwaun Gynfi a Llanrug yw'r ddwy eisteddfod arall. Mae nifer o unigolion yn rhoi o'u hamser i hyfforddi plant ac ieuenctid ar gyfer yr eisteddfodau hyn, ac yn cynnig profiad iddynt a fydd o fudd i'r dyfodol. Cefnogwch eich eisteddfod leol. Mawr obeithiwn y cawn roi sylw i enillwyr y tair eisteddfod yn rhifynnau Rhagfyr a'r Nadolig.
- Bydd cyfleoedd i ymweld â chanolfan newydd Pontio ym Mangor. Trefnir ymweliadau gydol y mis, a bydd y ganolfan hir-ddisgwyliedig yn agor ar 28ain o Dachwedd. Bydd bro'r "Eco" felly o fewn cyrraedd i ddwy ganolfan ddiwylliannol a chelfyddydol, gyda'r Galeri yng Nghaernarfon a Pontio ym Mangor yn cynnig amrywiol ddanteithion a ddylai fod at ddant pawb.

# Eisteddfod Bentref

Nos Wener, Hydref 16, cynhaliwyd Eisteddfod Bentref lwyddiannus a chymdeithasol iawn gyda'r Neuadd Gymuned yn llawn. Cafwyd eitemau addawol iawn gan yr Adran Gynradd gyda rhai cystadleuwyr yn serennu'n barod. Bu'r cystadlu llenyddol o safon glodwiw hefyd yn ôl y beirniad, y Prifardd Ieuan Wyn, a llongyferchir Mabli ar ennill Tarian Prif Lenor Cynradd. Gyda chanmoliaeth uchel hefyd i Magi Tudur – llongyfarchiadau iddi ar ennill Cwpan Prif Lenor Uwchradd ac anogir pob cystadleuydd i ddal ati i lenydda a barddoni. Roedd gwaith arlunio, gwaith llaw, ffotograffiaeth, gwaith cyfrifiadur a choginio o safon aruchel iawn ac yn wledd i'r llygaid. Dymunir diolch i'r Beirniaid i gyd am eu cydweithrediad a'u dyfarnu teg.

Diolchir yn arbennig i holl staff yr ysgol am eu cydweithrediad arferol, i'r rhieni am eu hanogaeth, i'r hyfforddwyr parod, i'r cyfeilyddion ac i aelodau'r Pwyllgor. Apelir am aelodau newydd ifanc brwdfrydig i ymuno â'r Pwyllgor y flwyddyn nesaf.

Dymuna aelodau Pwyllgor y Neuadd a Phwyllgor yr Eisteddfod ben-blwydd hapus arbennig i Marina ym mis Tachwedd – aelod gwerthfawr a gweithgar iawn yn y pentref. Gobeithir cynnwys y canlyniadau a lluniau o'r Eisteddfod yn y rhifyn nesaf.

Dymunir diolch o galon i Mathew Phillips, Llywydd y Noson, am ei anerchiad tu hwnt o ddifyr yn olrhain ei hanes yn nyddiau ei Eisteddfod ef a'r ymarferion a gawsai gan ei fam ar stepan y grisiau a'r hwyl o gael mynd i drws nesaf at John Eifion a'r teulu. Diolchir hefyd iddo am ei rodd hael ac am iddo ef a'r teulu aros i gefnogi hyd y diwedd.























# *Parhad* PENISARWAUN

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun**

**Pêl Bonws Loteri** - Enillydd Mis Gorffennaf oedd Mrs Ann Paterson 1, Bryn Tirion rhif 48, a mis Awst Miss Nancy Williams, 9 Llys y Gwynt gyda rhif 15. Llongyfarchiadau. Enillydd Mis Medi oedd Mr Dave Ash, Commercial gyda Rhif 26. Llongyfarchiadau.

Cofion Rydym yn anfon ein cofion at Mrs Joan Williams Allt Riwth sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Medi. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu gyda'r teulu.

**Gwellhad** – Anfonwn ein cofion at bawb sydd wedi treulio amser yn yr Ysbyty yn ddiweddar neu ddim wedi bod yn teimlo'n dda.

**Cinio Nadolig** Cynhelir y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty'r Buckley Biwmares dydd Sadwrn Rhagfyr 12fed. (Cynhelir Marchnad a Ffair Nadolig yn y Gwesty ar y diwrnod.) Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 12:15 o'r gloch. Enwau i Janet Ash (871265) Ann Paterson (872405) neu Liz Jones (872421) erbyn Tachwedd 28ain fan bellaf os gwelwch yn dda.

**Diolch** Dymuna Pwyllgor Cronfa Pensiynwyr Penisarwaun ddatgan eu diolch am y swm o £250 a dderbyniwyd gan Grŵp Cynefin, sef Grant Datblygu Cymunedol. Bydd yr arian o gymorth mawr i ni alluogi mynd â'r Pensiynwyr am drip a chael cinio Nadolig.

Yn yr un modd diolchwn i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am eu cyfraniad ariannol hwythau o £150.

**Ysgol Gymuned Penisarwaun**

**Croeso** Croesawyd 7 o blant bach newydd i'r dosbarth Meithrin, mae Ifan, Amy, Indi, Maia, Mali, Ela ac Ethan wedi setlo'i lawr yn dda iawn yn ein plith.

**Pob Lwc!**Dyna ddymunwn i'r plant sydd wedi dechrau ar eu cyfnod yn Ysgol Brynrefail.

**Gwersi Nofio** Mae 28 o blant dosbarthiadau 2, 3, 4, 5, a 6 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio sydd yn cael eu cynnal yn wythnosol ar fore dydd Iau, mae pawb yn mwynhau.

**Gwersi Offerynnol** Mae 11o blant yn derbyn gwersi yn yr ysgol bob wythnos.

**Urdd Adran Ysgol** Mae nifer o'r plant wedi ymaelodi am y flwyddyn 2015 - 16

**Ffair Lyfrau** Trefnwyd ffair lyfrau gan y Cyngor Ysgol yn ystod yr wythnos Medi 21 i 25. Diolch i bawb a alwodd draw i gefnogi.

**Sesiynau Hoci** Croesawyd Sioned Williams i'r Ysgol i gynnal tair sesiwn o hyfforddiant Hoci. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

**Sgwrs** Croesawyd Sara Burman (Karate) i'r Ysgol fore Mawrth, Hydref 20fed, i roi sgwrs ddiddorol i blant Bl 1 i 6.

**Tynnu Lluniau** Bydd Mr Gwynant Parri yn yr Ysgol fore dydd Mercher, Tachwedd 4ydd, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw un sydd heb blant yn yr Ysgol i alw draw os dymunant

**Ysgol Sul Bosra** Fore Sul, Hydref 11, daeth cynulleidfa gref i gydaddoli yn Eglwys Santes Helen am 11.00 y bore. Diolchir i chwi rieni am ddod â'r plant i'r Gwasanaeth Diolchgarwch hyfryd ac am eich cyfraniadau hael i Fanc Bwyd lleol. Dymunir diolch i'r Ficer, y Parch Ddr Carol Roberts am y croeso a diolch i Mrs Jennifer Ann Roberts, Galluogydd Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, Synod Bangor, am yr anerchiad bywiog i'r plant. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Paul Hummel, Rheolwr Banc Bwyd Caernarfon am y cyfraniadau niferus iawn. Ni chynhelir Ysgol Sul ar Hydref 25 na Tachwedd 1af oherwydd gwyliau hanner tymor.

**Cofio'r Bechgyn** Fore Sul, Tachwedd 8fed cynhelir gwasanaeth byr yng Nghapel Bosra o 10-10.30 i gofio'r bechgyn o'r capel a syrthiodd yn yr Ail Ryfel Byd, sef Griffith J. Williams, Coed Parc a dau frawd i Arnold Jones, sef Elfed a Charles Jones, Arthur Terrace. Yna, erbyn 11.00 hebryngir y plant i'r Eglwys i gofio am fechgyn y pentref o flaen y Gof Golofn. Hyderir y gellir trefnu gwasanaeth eto ar y cyd yn ystod y Nadolig.

**Pwyllgor Neuadd** Dymunir diolch i'r gwirfoddolwyr a ddaeth i helpu i rannu'r dŵr i gystadleuwyr Marathon Eryri fore Sadwrn, Hydref 24ain. Bydd y cyfraniad ariannol o gymorth mawr tuag at y gost o reoli'r Neuadd Gymuned.

Dylai Catalog Webb Ivory fod wedi cyrraedd pob aelod o'r pwyllgor erbyn hyn – mae Phyllis angen archebu mor fuan â phosib ar ôl Tachwedd 1af. Bwriedir cynnal rhyw weithgaredd i gymdeithasu a dathlu'r Nadolig – bydd mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf.

Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr yw: Lynne Elias, Waen, a Huw Davies, Tyddyn Hendre.

**Eglwys Santes Helen**

Diolchgarwch am y Cynhaeaf Bore Sul, Hydref 11eg am 11 y bore fe gynhaliwyd Gwasanaeth Undebol o Gymun Teuluol y Cynhaeaf gydag aelodau a phlant Ysgol Sul Capel Bosra. Hyfryd oedd gweld yr Eglwys bron yn llawn. Cafwyd anerchiad gyda phypedau gan Mrs Jennifer Ann Roberts, Galluogydd Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd (CYFME) Synod Bangor a gweinyddwyd y Cymun gan y Ficer, y Bach Ddr Carol Roberts. Yn ystod y gwasanaeth fe gasglwyd gwerth oddeutu £200 o fwyd ar gyfer y banc bwyd lleol yng Nghaernarfon a dosbarthwyd y bwyd i'r banc yn ystod yr wythnos ac fe gyflwynwyd y ffrwythau a'r llysiau i Gartref i'r di-gartref ym Mangor. Fe garai y Barchedig Carol Roberts a swyddogion yr Eglwys ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y gwasanaeth ac am y rhoddion hael o fwyd i'r banc bwyd.

Nos Lun, Hydref 12fed fe gynhaliwyd Gwasanaeth Gosber Cymraeg y cynhaeaf. Braf oedd cael croesawu yn ôl i'r Eglwys y pregethwr gwadd, ein cyn Ficer, Y Parchedig Lloyd Jones, Ficer Bro Beuno Sant Uwch Gwyrfai. Roedd cynulleidfa niferus wedi ymuno hefyd yn y gwasanaeth yma a braf oedd croesawu aelodau o eglwysi lleol ein plwyf, Bro Eryri. I ddilyn y gwasanaeth, am 7.00 yh cafwyd bwyd y cynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys a braf oedd gweld y neuadd yn llawn ar gyfer ar achlysur. Ar ôl y bwyd fe gafwyd anerchiad byr ar y Fasnach Deg an Mrs Liz Perkins, a chafodd pawb gyfle i brynu rhai o gynhyrchion masnach deg.

Fe garai swyddogion a ficer y plwyf ddiolch i bawb a gefnogodd y gwasanaethau, pawb a helpodd i addurno'r Eglwys, am y blodau, y rhoddion o fwyd, llysiau a ffrwythau ac i bawb a drefnodd wasanaethau y cynhaeaf a'r bwyd. Diolch hefyd i Mr Martyn Hughes a Mr William Williams am ddarparu'r bwyd.

**Trefn Gwasanaethau mis Tachwedd**

Sul Tach 1, 15 a 22: Gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 11yb

Sul y Cofio, Tach 8fed: Gwasanaeth Coffa a Chymun undebol gyda aelodau a phlant ysgol Sul Bosra i ddechrau am 10.45 gyda gwasanaeth wrth y Gofeb am 11yb

Sul Tach 29 am 10yb: Gwasanaeth Undebol Adfent ar gyfer Eglwysi Bro Eryri.

**Conffyrmasiwn / Bedydd Esgob** Yn ystod gwanwyn 2016 fe fydd gwasanaeth conffyrmasiwn / Bedydd Esgob yn cael ei drefnu ym Mro Eryri i ddarparu ein plant, pobol ifanc ac oedolion. Fe fydd gwahanol ddarpariaeth yn cael eu trefnu o ddechrau mis Ionawr 2016 ymlaen ar gyfer plant ac o Dachwedd 4, 2015 ymlaen ar gyfer oedolion. Gall pawb sydd eisiau paratoi ar gyfer y Bedydd Esgob gysylltu gyda'n Ficer, y Barch Ddr Carol Roberts cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda.

**Gyrfa Chwist** Fe gynhelir gyrfaon chwist yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fawrth am 7.30 o'r gloch.

**Bingo** Fe gynhelir Bingo arian at achosion lleol yn Neuadd yr Eglwys nos Fercher, 11 a 25 o Dachwedd am 7 o'r gloch.

# BETHEL Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726



**Eisteddfod Bethel 2015**
Enillwyr cystadlaethau prif lenorion Eisteddfod Bethel 2015 a gynhaliwyd ym Methel ar Sadwrn, 17 Hydref. Enillydd y Tlws Cynradd oedd Cai Moss ac enillydd y tlws Uwchradd oedd Moli Haf Roberts. Yn y llun efo'r enillwyr mae'r Orsedd a'r beirniad, y Prifardd Ieuan Wyn.

**Clwb Bro Bethel** Yn absenoldeb anorfod y Llywydd croesawyd pawb i gyfarfod y mis gan yr Is-lywydd, Geraint Elis. Braf oedd cael croesawu aelod newydd, sef Beti Vaughan Jones, a dymunwyd yn dda i Ann Ellis Williams yn dilyn triniaeth i'w hysgwydd. Anfonwyd cofion at John Evans a Danny Humphreys, y ddau heb fod yn dda yn ddiweddar a rhannwyd bwydlen y Cinio Nadolig sydd i'w gynnal eleni ar ddydd Mercher Rhagfyr yr ail. Gofynnwyd yn garedig i bawb dychwelyd y fwydlen erbyn y cyfarfod nesaf.

Huw Davies, Dirprwy Brif Weithredwr Antur Waunfawr oedd y siaradwr gwadd a gyda chymorth Dafydd Emrys (un o hogiau ni yma ym Methel) cafwyd hanes sefydlu yr Antur yn nyddiau Gwynn Davies a'r holl wasanaethau sydd yn cael eu cynnig heddiw gan yr Antur. Braf i ni oedd gwerthfawrogi cyfraniad Dafydd i'r sgwrs a chafodd gyfle i sôn am ei waith o ddydd i ddydd, ac hefyd cael profiad o sefyll o flaen cynulleidfa.

Diolchwyd i Huw a Dafydd am brynhawn hynod o ddiddorol wrth rannu hanes amhrisiadwy y Fenter Gymdeithasol gan Jenkin Griffiths. Diolch i Beti Owen ac Eirlys Sharpe am ofalu am y banad. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Dachwedd yng nghwmni Bob Morris, Penygroes.

**Cynhelir Sêl Pen Bwrdd** yn Neuadd Goffa Bethel dydd Sadwrn, 7fed Tachwedd, o 11.00am tan 3.00pm

Mynediad am ddim, paned a teisen: £1 Am fwrdd cysylltwch ar (01248) 670138

Gwnaed elw o £525 yn y bore coffi MacMillan a gynhaliwyd yn y Neudd fore Gwener, Medi 25. Diolch i bawb am drefnu a chefnogi.

**Merched y Wawr** Canwyd cân y mudiad ac yna croesawyd pawb gan y Llywydd Mair Read, mynegwyd balchder o weld aelodau newydd. Dosbarthwyd y fwydlen ar gyfer ein cinio Dolig. Anfonwyd cofion at Elisabeth Blaenparc, yn falch o glywed fod ei gŵr John yn well ac wedi ei drosglwyddo o ysbyty Gwynedd i Eryri. Yn falch o glywed fod Richard, gŵr Mary Wyn wedi gorffen ei driniaeth ac yn gwella a dymunwyd yn dda i Robin, gŵr Alis.

Croesawyd ein gŵr gwadd, Pierino Algieri atom, ffotograffydd ac awdur 'Eidalwr yn Eryri'. Dangosodd gasgliad o luniau i gerddoriaeth fu'n eu creu dros gyfnod o 25 mlynedd. Roedd ganddo dair thema, Dyffryn Conwy, Arfordir Gogledd Cymru a Mynyddoedd Eryri. Swynwyd pawb gan luniau lliwgar a dynnwyd ar wahanol adegau o'r dydd a'r flwyddyn. Daeth â dewis o gardiau a chalendrau i'w gwerthu. Darparwyd paned gan aelodau'r gangen ac enillwyd y raffl gan Ann Lewis.


Casglwyd enwau dau dîm ar gyfer y cwis cenedlaethol. Cyfarfod mis nesaf ar Dachwedd 11eg pan fyddwn yn croesawu'r awdures Gwen James.

**Cymdeithas Lenyddol** Agorwyd gweithgareddau'r Gymdeithas eleni yn gartrefol braf yng nghwmni Manon Gwynedd a'i chyfeillion. Roedd nifer dda o aelodau yn bresennol a chroesawyd pawb ynghyd i'r cyfarfod gan Lywydd y noson, Jenkin Griffiths. Braf oedd cael datgan fod y Gymdeithas wedi derbyn rhodd ariannol gan Gyngor Llanddeiniolen eto eleni.

Rhoddodd Manon hanes ei magwraeth yn y Bala a sut bu iddi ymddiddori mewn cerddoriaeth ers yn blentyn ifainc, gan ddilyn y diddordeb tra yn y Coleg. Yna cafwyd eitemau gan Lowri Ann yn canu, Elen Efans yn cyflwyno darnau ar y piano ac yna Gwion John yn canu. Datgelodd Manon hefyd bod cerddoriaeth yn gallu cael plant i ymdawelu ac ymlacio a gwella eu hymddygiad yn yr Ysgol. I gloi y noson bu i'r pedwar gyflwyno'r gân boblogaidd 'Safwn yn y Bwlch'.

Diolchwyd i Manon am noson hwyliog dros ben ac hefyd am iddi rhoi'r cyfle a chefnogi'r bobl ifainc i berfformio yn gyhoeddus. Cyn troi am adref cafodd pawb gyfle i sgwrsio dros banad.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Tachwedd 17, yng nghwmni Dr. Bruce Griffiths yn Festri Bethel.



**Llongyfarchiadau** i Dewi Foulkes o Fethel ar ei lwyddiant yn Seremoni Gwobrwyo BAFTA Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Cafodd Dewi, sydd yn gyn ddisgybl Ysgol Brynrefail, ei wobrwyo am ei waith fel Technegydd Effeithiau Arbennig ar y cynhyrchiad o 'A Poet in New York' oedd yn portreadu bywyd Dylan Thomas.

Ers iddo raddio ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2011 mae Dewi wedi bod yn gweithio gyda chwmni Real SFX yng Nghaerdydd ac wedi bod yn ffodus i gael gweithio ar nifer o rhaglenni poblogaidd gan gynnwys Dr. Who, Casualty, Sherlock, Coronation Street a Pobol y Cwm. Ar hyn o bryd mae yn gweithio i fyny yn yr Alban ar ail gyfres cynhyrchiad Americanaidd yr 'Outlander'.

Pob lwc iddo gyda ei yrfa gyffrous a phwy a ŵyr un diwrnod y caiff wireddu ei uchelgais o weithio ar y ffilm James Bond nesaf.

## CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

**Ar y Dibyn** Llongyfarchiadau i Hannah Hughes, Gele, ar gael ei dewis yn un o wyth o bobl ifanc sydd yn cystadlu ar raglen gyfredol S4C Ar y Dibyn. Gwyddom am ddawn Hannah yn y maes ffitrwydd a dymunwn yn dda iddi yn ei pherfformiad o hyn ymlaen (tair rhaglen sydd wedi bod hyd yma) Pob lwc, Hannah

**Diolchiadau Miri Medi** Hoffai aelodau o'r Pwyllgor Cae Chwarae ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau: am wobrau raffl: Tafarn Black Boy, Palas Print, Tŷ Blodau a Wil cigydd.

Picamica a Petals am stondin losin.

David a Debbie Jones am gael benthyg castell neidio.

Bryn Morris am fod yn gymorth trwy'r dydd.

Llio Jones a Glenda Hughes am ofalu am y te a choffi, ac i bawb fu yn helpu i glirio'r cae ar y diwedd. Bu cyfraniad pawb yn werthfawr iawn.

**Bore Coffi Macmillan** Y swm terfynol a godwyd yn y bore coffi oedd £1,085. (£735 ar y dydd ac ychwanegiad o £350 gyda diolch gan HSBC). Rhennir yr arian rhwng Gafael Llaw, Awyr Las a chronfa gancr Macmillan.

Dylem fod yn falch iawn o deyrngarwch pobl Caeathro i'r achos da yma.

**Rhos Bach** Llongyfarchiadau i Jac Roscoe, Perthi, sydd wedi ei ddewis i chwarae golff i dîm Cymru. Rho wybod am y datblygiadau Jac!.

**Croeso** hefyd i Dwynwen a Mabon sydd wedi symud dros dro i Erw Gynrug, tra bod Swyn wedi cychwyn yn y coleg yng Nghaerdydd.

**Gwasanaethau'r Capel**

Tachwedd 1af am 2 o'r gloch: Parch Marcus Robinson (Gweinidog). Gweinyddir y Cymun.

Tachwedd 22ain am 2 o'r gloch: Parch Ddr Elwyn Richards.

**Tynfa Misol** Dyma enillwyr mis Hydref: 1af (46) £40: Aled Jones, 9 Rhes Glangwna; 2il(50) £25: Tony ac Eirian, Annedd; 3ydd (85) £15: Owie Williams, 19 Rhes Glangwna; 4ydd (24) £5: Elen Burke, 4 Caeathro Bach.

**Sioe Gerdd Ysgol Syr Hugh Owen** Llongyfarchiadau i Betsan Ceiriog, Erw Wen, ar serennu yn y sioe gerdd, Grîs, yn Galeri yn ddiweddar. Da iawn ti Betsan!

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts. Ffôn: 870580

**Profedigaeth.** Ar Hydref 8fed yn Ysbyty Gwynedd yn 83 mlwydd oed bu farw Jane Elspeth Griffith, Llys Brynrefail. Mae'n chwith ei cholli o'n plith gyda'i hanwyldeb a'i chyfarchiad siriol bob amser. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**YR EGLWYS BRESBYTERAIDD**

**Y Gymdeithas**

Cafwyd cyfarfod arbennig o lwyddiannus i gloi tymor y Gymdeithas. Roedd yr ysgrifennydd, Dafydd Ellis, wedi trefnu taith i ardal Dolwyddelan a Llanrwst. Wedi cyrraedd pentref Dolwyddelan ar fore hyfryd o Hydref cawsom ein cyflwyno i'n tywysydd, yr hanesydd ac archeolegwr lleol, Bill Jones. Cawsom ein harwain i eglwys hynafol Sant Gwyddelan sy'n dyddio i'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'n cyflwyno i'w llu nodweddion hynod – yn eu plith y tu mewn fedd Angharad James a'i chysylltiad â'r pregethwr enwog, John Jones, Talysarn. Y tu allan gwelsom fedd Nanws ach Robert, y wraig a gasglai redyn i'w losgi i wneuthur sebon o'r llwch a'r elw yn mynd i godi yr addoldy Methodistaidd cyntaf yn y pentref. Yna dringo'r ffordd serth o'r pentref i'r ucheldir i weld olion hen annedd-dai Pen Amnen a gwaith ymchwil ein tywysydd o'r safle a'i gyflwyniad mor ddiddorol. Cyn ymadael â'r pentref roedd rhaid ymweld â thŷ fferm Tan y Castell a'i gofebau mawrion i gydnabod cyfraniad teulu'r pregethwr enwog. Yna ymlaen tua Llanrwst ac i Blasty ac Oriel Ffin y Parc lle roedd pryd blasus wedi ei baratoi i ni a chael cyfle i werthfawrogi arddangosfa arbennig o waith tri arlunydd. Mae ein diolch yn gynnes i'n hysgrifennydd am ddiwrnod mor ardderchog.

**Oedfaon Tachwedd**

| | |
|---|---|
| 1 am 5: | Oedfa'r Aelodau |
| 15 am 5: | Mr Edward Morus Jones, Llandegfan |
| 22 am 2: | Parch Gerallt Ll. Evans, Bodorgan |
| 29 am 5: | Mr T. Alun Williams, Caernarfon |

## *Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa*

07/10/2015

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol eleni yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar y 7fed o Hydref. Siomedig iawn unwaith eto oedd y presenoldeb, gyda pedwar swyddog a dau gefnogwr yn bresennol. Derbyniwyd tri ymddiheuriad.

Cafwyd adroddiadau gan y gwahanol swyddogion.

Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad y pwyllgor o gyfraniad Dafydd i lwyddiant yr Eco gan ddiolch iddo am ei waith diflino yn golygu.

Adroddodd y golygydd, er fod pob rhifyn bellach yn 32 tudalen, fod mwy o ddeunydd nag a ellir ei gynnwys bron bob mis. Y broblem fwyaf ydi nad yw pob cyfranwr yn cadw at y dyddiad pan mae deunydd i fod i law. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cadw at y dyddiadau.

Cyfeiriodd Gwyndaf fod problemau yn parhau o safbwynt ansawdd lluniau sy'n cael eu cyflwyno i'r Eco, a thynwyd sylw at yr arweiniad sydd wedi ei gynnwys yn yr Eco droeon ynglyn a lluniau sy'n dderbyniol.

Cyfeiriodd Goronwy at y fantolen ariannol (tud 22) sy'n dangos cynnydd o £1300 yn yr incwm o'r gwerthiant ond fod hyn yn deillio o'r cynnydd yn y pris. Mae incwm hysbysebion £2233 yn is na'r llynedd. Adroddwyd fod y sefyllfa arianol yn iach ar hyn o bryd ond penderfynwyd cynnal cyfarfod pellach i drafod y dyfodol mewn perthynas a hysbysebion.

Y Wefan- adroddwyd fod cyfartaledd o 130,000 o hits bob mis a hynny o bob rhan o'r byd ac mewn un mis cafwyd 250,000 o hits. Gofynwyd am gymorth i roi mwy o hen luniau'r Eco ar y wefan.

Ethol swyddogion – Penderfynwyd ail-ethol yr holl swyddogion.

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU ▫ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn
Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?
Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor
Dennis & Julie Jones
01286 650255

## DINORWIG
Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870292

**Gaeaf ar ein Gwarthaf** Mae tymor y Diolchgarwch wedi mynd a dod erbyn hyn, er hynny mae y tywydd yn hynod o garedig hefo ni er ei bod yn brigo yn arw yn ystod y nos ac yn ei gwneud yn oer iawn y peth cyntaf y bore, ac yn dechrau oeri ar ôl te, ond diolch am yr haul yn ystod y dydd.

Cafwyd nos Sul Diolchgarwch ar yr ail Sul yn Hydref reit lewyrchus yng Nghapel Ebenezer Deiniolen lle, am unwaith, yr oedd yr Annibynwyr a'r Methodistiaid wedi uno a'r Festri yn hanner llawn. Yr oedd yn olygfa hyfryd iawn a gobeithio y gwelwn hyn yn fuan eto. A diolch i bawb a ddaeth yno, gan obeithio inni i gyd dderbyn bendith.

**Pen-blwydd 101** Llongyfarchiadau mawr i Mrs Priscilla Williams sydd wedi cael byw ar ôl salwch mawr i ddathlu ei phen-blwydd yn 101 ar 24 Hydref. Braf oedd ei gweld yn gallu mwynhau ei hun ac yr un mor hwyliog ac y mae wedi bod erioed ac yn gallu mwynhau ei bwyd. Diolch i Eurwen ac Alwyn am fod mor garedig hefo hi, chaiff hi ddim cam ganddynt ond y gorau bob amser a hithau yn eu gwerthfawrogi hwythau. Mrs Williams, ymlaen yn awr am y 102 a gobeithio am well blwyddyn yn 2016. Hwyl fawr ac iechyd ichwi.

**Cofion yr ardal** at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt sydd yn cartrefu yn Plas Garnedd, Llanberis. Hithau yn mwynhau iechyd gweddol dda ac yn methu canmol digon ar swyddogion y Cartref. Pawb yn garedig iawn hefo hi ac Eurwyn yn galw ddwy waith neu dair yn ystod yr wythnos. Da iawn chdi, Eurwyn, yn rhoi tipyn o sylw i'th fam.

**Yn Cwyno** Drwg gennym ddeall nad yw Mr Phillip Wyn Jones, Tŷ Capel Sardis yn rhy dda ei iechyd ar hyn o bryd ac yn gorfod mynd a dod i'r ysbytai yn reit amal. Phyl, gobeithio am wellhad llwyr a buan iti ac y cawn dy weld yn mynd a dod yn dy Land Rover yn reit fuan. Colli dy weld yn mynd a dod hyd y pentref.

**Y Gysgodfan ar ei newydd wedd** Rwyf yn sicr ein bod yn ddiolchgar iawn i Gyngor Llanddeiniolen am lanhau a pheintio y tu mewn i'r Gysgodfan. Diolch o galon iddynt gan ei bod yn edrych fel cysgodfan newydd. Gobeithio y caiff ei chadw fel ag y mae yn edrych yn awr gan fod pethau fel hyn yn costio ac, wrth gwrs, y trethdalwr sydd yn gorfod talu yn y diwedd. Felly os gwelwch yn dda parchwch y Gysgodfan. Diolch o galon waith eto i'r cyngor.

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163 www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER · Menter Môn · Cyngor Gwynedd Council · ERDF

**GWENER 6 TACHWEDD 10.00 yb**

**DEINIOLEN: HANESION MARCHLYN (2½ milltir os yn wlyb / 4½ milltir os yn sych)**

CYCHWYN: CAFFI EBs, DEINIOLEN

BRYNIOG GYDA LLWYBRAU CYHOEDDUS. SGIDIAU CERDDED YN HANFODOL.

**IAU 12 TACHWEDD 1.30 yp**

EGLWYS LLANDDEINIOLEN (½ milltir)

CYCHWYN: GORS BACH, LLANDDEINIOLEN

HAWDD IAWN.

IAU 19 TACHWEDD 10.00 yb

FELINHELI: Y TRAMFFORDD COLL (2½ milltir)

**CYCHWYN: FELIN SGWRSIO, STRYD BANGOR, Y FELINHELI**

EITHA HAWDD. SGIDIA CERDDED.


**IAU 26 TACHWEDD 10.00 yb**

ABEROGWEN: AWYRLYS Y RHYFEL FAWR, Y RHYFEL CARTREF A'R LÔN RHUFEINIG (5 milltir)

CYCHWYN: GWARCHODFA NATUR ABEROGWEN ger TALYBONT

CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED YN HANFODOL. DEWCH A PICNIC.

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718




GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal
Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)
Hefyd
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

# Clirio Afon Goch




Yn ystod y mis diwethaf bu cryn waith yng Nghwm y Glo yn clirio gwely'r afon Goch, a sicrhau na fydd llifogydd drwg yn y rhan hon o'r pentref yn ystod misoedd y gaeaf sydd i ddod.

**Cydymdeimlad** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Sioned Jones, Arwyn a Llion yn eu profedigaeth frawychus o sydyn o golli cymar a ffrind annwyl, Dafydd Jones.

**Llongyfarchiadau** i Avril Jones, Glan-y-Don ar enedigaeth wyres fach, Mali Eifion, merch fach i Anest a Lewis yn Llanberis.

**Dymuna** Hilda ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch arbennig i Judith, Cynthia a Judith am baratoi lluniaeth ar gyfer y prynhawn a gyda'r nos ar y diwrnod.


Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn festri Eglwys Sant Mair pnawn Mawrth, 20 Hydref. Croesawodd yr arweinydd pawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gwasanaeth oedd yng ngofal Dorothy Jones. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Enid Taylor a Iola Jones. Cafwyd adroddiad gan Auriel am y cyfarfod a gafwyd ym mis Medi a thrafodwyd rhai materion. Cafwyd amser wedyn i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Gwyneth, Marjorie, Dorothy a Hilda. Diolchwyd iddynt gan Auriel. Rhoddwyd y raffl gan Marjorie ac fe'i henillwyd gan Iris Evans. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.









CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

# Priodas yn Avon House, Llanberis.




Parhau mae'r dirgelwch ynglŷn â'r briodas yn Llanberis. Yn y rhifyn diwethaf roedd Eifion Roberts yn tybio fod Jennie Davies wedi priodi efo William Davies yn 1927. Digon posib – ond nid y Jennie Davies oedd yn y llun dddeufis yn ôl! Roedd y Jennie Davies honno yn chwaer i fam Liz Roberts a anfonodd y llun i'r "Eco". A doedd y Jennie Davies honno ddim wedi priodi. Bu farw yn ferch ifanc bump ar hugain oed yn 1931. Hi sy'n eistedd ar y chwith yn rhes flaen y llun.

Cysylltodd Liz Roberts eto, gan iddi dderbyn gwybodaeth gan aelod o'i theulu am un arall yn y llun. Y wraig yn cario baban bychan yn ei breichiau yw Nel (Mary) Davies o Ddôl Elidir, a'r baban oedd ei merch hynaf Jennie Wyn. Mae chwaer ieuengach, Nellie Wyn, yn byw yn Rhosgadfan heddiw. Roedd gŵr Nel Davies, sef William John Davies, yn gefnder i fam Liz Roberts, ond nid yw'n ymddangos ei fod yn y llun.

Daeth ymateb hefyd gan Alison Vaughan Jones, Clwt y Bont – nid am y briodas, ond am y ffotograffydd. Mae'n ymddangos mai ei thaid, William John Williams oedd yn gyfrifol am dynnu'r llun. Roedd ganddo stiwdio yn adeilad y Paternoster ar y Maes yng Nghaernarfon (lle mae siop Poundstretcher heddiw). Mae'r llun yn dangos yr arwydd ar y siop: "W.Williams, Photographers". W.J.Williams oedd y tynnu'r rhan fwyaf o luniau priodas yr ardal bryd hynny, ac yr oedd yn dilyn ei dad, William Williams, gyda'r un gwaith.

W.J.Williams oedd unig blentyn William Williams, a chafodd ei eni ddiwrnod cyn y Nadolig 1884 yn 71 Stryd y Llyn, Caernarfon. Priododd efo Jennie Davies Jones, 32 New Street, Deiniolen ar ddechrau 1922, a chawsant dri o blant: John Hugh ( fu farw'n 11 mis oed yn 1924), Margaret Elizabeth ac Islwyn (sef tad Alison) a oedd yn byw yn Ynys Iago, Llanddeiniolen. Bu farw W.J.Williams ar ddechrau 1957 yn 73 oed a'i gladdu yn Llandinorwig. Yn ol Alison, roedd ei thad yn cofio W.J.Williams yn datgelu lluniau mewn dwr ffos gyferbyn ag Ynys Iago!

Ond mae'n ymddangos nad yng Nghaernarfon yn unig yr oedd gan William Williams stiwdio dynnu lluniau. Ym meddiant y teulu mae llun gyda'r enw "Williams Photography, Tregarth" arno. Ym mynwent Eglwys Y Gelli, Tregarth y claddwyd William Williams yn 1906. Roedd bryd hynny yn byw yn 12 Craig Pandy, Tregarth.

Credir fod nifer o'i luniau yn cael eu harddangos ar waliau tafarndai Caernarfon.

Ers faint, felly y bu William Williams yn cynnal busnes tynnu lluniau yng Nghaernarfon? Mae nifer o Gyfeirlyfrau Masnach yn yr Archifdy, ond nid ar gyfer pob blwyddyn. Yn y Bennett's Directory am 1895 does dim son amdano ar y Maes. Mae William Williams yno erbyn 1911, yn cael ei ddisgrifio fel "photographer, Paternoster Buildings". Yn enw'r tad roedd y busnes mae'n amlwg, oherwydd roedd William Williams wedi marw yn 1906. Yn 1927, mae'n parhau yn yr un adeilad, ond erbyn hyn yn cael ei alw yn "Premier Photographer". Enwir y perchennog fel E.C.Pound (sef yr enw oedd hefyd ar gefn llun priodas Llanberis). Erbyn 1942 mae'r busnes gyda ffon (rhif 74), arwydd pendant o symud ymlaen!

Tybed faint mwy o luniau priodas,(neu achlysuron eraill) sydd ym meddiant darllenwyr y golofn hon? Beth am gipolwg drwy'r hen albwm lluniau teuluol rhag ofn?

# Problem Cors Llwyncoed.

Roedd codi Pont Penllyn yn 1826 yn arwydd pendant o'r bwriad i wella cyfleusterau teithio o Lanrug drwy Gwm y Glo ac ymlaen i Lanberis. Cwblhawyd y ffordd 'newydd' ar hyd glannau Llyn Padarn erbyn dechrau'r 1830'au, a disodli'r hen ffordd dros y Clegir.

Ond roedd croesi Cors Llwyncoed yn amlwg wedi creu cryn broblem, a cheir cyfeiriadau mynych dros y blynyddoedd at y ffordd yn cael ei boddi ar gyfnodau o law trwm.

Doedd diwedd 1914 ddim yn eithriad, ond roedd yn gyfrwng i symud ymlaen gyda gwelliannau. Bu glawogydd trwm yn ystod y mis, ac fel yn ystod pob gaeaf cyn hynny, roedd y ffordd dan ddwr. Roedd chwarelwyr Cwm y Glo a'r ardal yn cael cryn anhawster i groesi Cors Llwyncoed ar y ffordd heb wlychu. Y gwyn gyffredinol oedd fod traed a throwsusau'r gweithwyr yn wlyb socian erbyn cyrraedd Penllyn, a bod rhaid iddynt weithio'n y dillad a'r esgidiau gwlyb drwy'r dydd – a'u gwlychu eilwaith ar y ffordd adref! Erbyn diwedd y mis roeddent yn gwrthod defnyddio'r ffordd, ac yn cerdded ar y rheilffordd o Stesion Cwm i geg y twnnel, cyn ail-ymuno efo'r ffordd fawr a cherdded yn ol heibio'i Graig yr Undeb am Benllyn.

Yng nghasgliad Cyngor Sir Gaernarfon mae pedwar o lythyrau wedi eu hysgrifennu ddiwedd Tachwedd 1914 yn cwyno am gyflwr y ffordd ac yn annog y Cyngor Sir i weithredu er lleddfu'r broblem. Yn eu plith mae llythyr gan y Cynghorydd T.R.Jones, yr aelod ar y Cyngor Sir dros ardal Llanrug, sy'n pwysleisio'r gwir angen am gael ffordd sych i'r trigolion lleol gael tramwyo hyd-ddi. Mae R.O.Williams, y gwr busnes o Gwm y Glo hefyd yn annog y Cyngor Sir i godi uchder y llwybr troed ar hyd ochr y ffordd.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus o weithwyr a threthdalwyr Cwm y Glo, ac y mae E.J.Roberts, The Terrace, yn sgwennu ar eu rhan gan bwysleisio nad "y llif mawr diweddar" oedd y broblem, ond "yr anfantais ers wythnosau yn ystod y gaeaf hwn". Mae hyd yn oed prifathro yr 'Intermediate School', (sef Ysgol Brynrefail) J.R.Foster yn anfon llythyr yn cwyno, nid yn unig am y dwr, ond am dyllau dwfn am bellter o tua ugain llath, ac yr oedd ef yn gorfod reidio beic ar hyd y ffordd bum diwrnod yr wythnos!

Erbyn Ionawr 1915 roedd sefyllfa'r ffordd ar draws Cors Llwyncoed ar raglen y Cyngor Sir, a'r Cynghorydd T.R.Jones yn pwysleisio "fod angen gwneud rhywbeth yn ddiymdroi… fod y ffordd dan ddwr yn ddifrifol ac yn achosi anhwylustod mawr i ddynion yn mynd i'r chwareli." Ategodd alwad gynharach R.O.Williams fod "angen ail-godi y troedlwybr ar ochr y ffordd."

Ond mae'n amlwg fod bron i ddwy flynedd wedi mynd heibio heb fawr gwelliant. Ym mis Hydref 1916 anfonwyd llythyr eto i Syrfewr y Cyngor Sir, y tro hwn ar ran Cyngor Plwyf Llanrug. Penderfynwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor Sir fod y Syrfewr i gysylltu efo'r Cwmni Rheilffordd "yn galw at y pwysigrwydd i godi troedlwybr ar ochr y ffordd heb oedi." Ac os cytunai'r Cwmni Rheilffordd i wneud eu rhan hwy o'r gwaith, roedd y Cyngor Sir hefyd yn fodlon gwario hyd at ganpunt i wneud y gwaith angenrheidiol.

Does gen i ddim syniad pam fod angen i'r Cwmni Rheilffordd fod yn rhannol gyfrifol am droedlwybr ar ochr y ffordd. Hyd yn hyn, ddeuthum i ddim ar draws unrhyw gofnodion sy'n adrodd os bu gwario ar wella cyflwr y ffordd, ac yn enwedig y llwybr ar hyd ei hochr. Os na wyddoch chwi fwy o'r hanes…..

# Chwarelwyr Dinorwig.



Anfonwyd y llun gan Gareth Pritchard (Tan y Coed gynt). Mae'n amau fod ei dad yn fachgen ifanc yn y llun. Ond a oes enwau i weddill y chwarelwyr?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

# NANT GWRTHEYRN
# Y diweddaraf o'r Nant...



Pleser gen i yw medru dweud bod haf 2015 wedi bod yn haf eithriadol o brysur yma yn Nant Gwrtheyrn. Bu i lu o briodasau, cynadleddau a chyrsiau iaith gymryd lle yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Undeb Yr Annibynwyr Cymraeg yma ddechrau mis Gorffennaf. Roedd y pentref yn llawn bwrlwm a braf oedd gweld cynifer yn mynychu – Gobeithio eich bod oll wedi mwynhau! Yn ôl yr arfer, bu niferoedd uchel yn mynychu'r cyrsiau iaith yn ystod y misoedd diwethaf, a ble well i ddysgu iaith y nefoedd nag yma yng nghanol harddwch Nant Gwrtheyrn?! Roedd lliwiau'r grug yn erbyn y graig yn anhygoel ddiwedd yr haf!

Efallai bod rhai ohonoch wedi galw draw i'n gweld ym Maes D yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod eleni. Roedd hi'n wythnos fendigedig yng nghanol mwynder Maldwyn gyda digonedd o bobl yn crwydro'r maes. Daeth llawer atom i gystadlu yn ein cwis unwaith eto eleni – Llongyfarchiadau mawr i Beryl Jacques o'r Trallwng ar ennill cwrs tridiau yn y Nant! Braf oedd cael sgwrs gyda rhai o ffyddloniaid y Nant ynghyd â chyfarfod darpar ddysgwyr newydd. Roedd yr Eisteddfod yn gyfle perffaith i ni lansio ein rhaglen gyrsiau ar gyfer 2016. Mae copi o'r rhaglen, ynghyd â chopi o'n pecyn priodas newydd i'w cael ar ein gwefan: www.nantgwrtheyrn.org

Rydym yn parhau i groesawu grwpiau a mudiadau o bell ac agos yma i'r Nant am sgwrs yn y Ganolfan Dreftadaeth cyn galw yn y caffi am damaid o de prynhawn. Mae croeso i chi gysylltu os ydych yn dymuno trefnu i ymweld â ni.

Wedi Haf Bach Mihangel gwerth chweil ddiwedd Medi, mae'r naws yma yn y Nant yn prysur droi'n hydrefol a lliwiau'r coed yn werth eu gweld. Rydym yn prysur edrych ymlaen at dymor y Cinio Sul, Partïon Nadolig a Gwledd Nos Galan, wrth gwrs! Ydach chi wedi clywed pwy fydd yn ein diddanu eleni? Rydym yn falch o gyhoeddi mai Geraint Lovgreen a'r enw da a Dilwyn Morgan â'i hiwmor ffraeth fydd yn eich diddanu. Cysylltwch â'r swyddfa am ragor o wybodaeth ac i hawlio'ch ticedi: 01758 750 334. Cofiwch, hefyd, bod croeso i chi gysylltu i drefnu dathliad yng Nghaffi Meinir dros gyfnod y Nadolig, boed yng nghwmni teulu, ffrindiau neu gyd-weithwyr.

Bydd yr Adran Addysg yn cynnal cwrs arbennig y 'Nadolig Cymreig' unwaith eto eleni. Dyma gyfle i unrhyw un, boed yn ddysgwyr neu'n Gymry Cymraeg, ddod i ymuno yn hwyl yr ŵyl a dysgu am gefndir y Nadolig Cymreig. Dewch yn llu!

Mae gwaith adeiladu'r adnoddau newydd bellach wedi ei gwblhau ac rydym yn falch o gyhoeddi bod Tŷ Canol ar agor. Mae'n werth i chi ddod draw i'w weld!

Bu cynhadledd 'Smaller Earth' yma ddiwedd y mis a chafwyd defnydd buddiol iawn o'r adnoddau newydd yn ystod yr wythnos. Braf oedd gweld y pentref yn llawn o bobl ifanc o bob cwr o'r byd yn dod at ei gilydd yma yn y Nant.

Efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi ar y cerflun gwydr sydd wedi glanio yma yn y Nant - Tu Hwnt yw enw'r cerflun gan Awst a Walther. Dewch draw i'w weld a rhowch wybod i ni beth ydi eich argraffiadau ohono ar ein tudalen Facebook neu Drydar @ nantgwrtheyrn1 #tuhwnt.

Cofiwch am ddiwrnod Shwmae Sumae! Ar y 15fed o Hydref eleni. Bydd cyfle i chi dderbyn paned o de neu goffi am ddim os yn prynu cacen yng nghaffi Meinir ac yn ein cyfarch gyda 'Su'mae'.


BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044




D. P. OWENS RHIWLAS

E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202





# Helfa Ffwng Parc Dudley.

Ar y Sul cyntaf yn Hydref cynhaliwyd Helfa Ffwng ym Mharc Dudley, Waunfawr. Yn ôl Duncan Brown,

"Mi gawson ni ddiwrnod gwych, 23 wedi troi allan o bob oed. Dechreuodd yr helfa dan ofal Dr Gareth Griffiths, arbenigwr o Brifysgol Aberystwyth ac yn byw yng Nghaernarfon. Y gyfrinach wrth gynnal helfa ffwng ydi digon o blant. Mae plant yn wych am ddod o hyd ffwng, a doedd yr helfa hon ddim yn eithriad. Wedyn aethom ymlaen i gaffi Antur Waunfawr i gael sgram. Roedd y Llydawr Dominig Kervegant a'r Isalmaenwr Gert Voss, (Cymry Cymraeg y ddau ohonyn nhw hefyd wrth gwrs) yn gofalu am y coginio, a'r 'helwyr' yn eu paratoi ar gyfer y sosban."

Gan edrych ymlaen at yr hydref nesaf.

Lluniau gan Brosiect Llên Natur Cymdeithas Edward Llwyd.











## WAUNFAWR Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Clwb 300** Enillwyr mis Medi oedd: £30: Mrs Nan Roberts, Pant Afon; £20: Mis Sian Jones, Pengamdda; £10: Mr F. Bockley, 4 Croes y Waun.

**Sefydliad y Merched** Yng nghyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd ar 1 Hydref, croesawodd y Llywydd, Catherine Jones, Pat yn ôl wedi ei gwaeledd ac roedd pawb yn falch iawn o'i gweld cymaint yn well. Dymunwyd llwyr adferiad iddi yn fuan. Cyfeiriodd hefyd at Wenna, sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth at ei salwch. Gobeithio y bydd hithau gyda ni reit fuan.

Y wraig wadd am y prynhawn oedd Pat Jones, Brynrefail. Dangosodd i ni sut i wneud trefniant blodau ar gyfer y bwrdd dydd Nadolig. Mwynhaodd pawb y pnawn ac fe wnaeth pawb drefniant ardderchog, yn ôl Pat!! Diolchodd Catherine iddi am ddod atom yng nghanol ei phrysurdeb.

**Merched y Wawr** Noson i godi arian tuag at elusen McMillan oedd noson agoriadol tymor Merched y Wawr ar Fedi 24ain. Darparwyd bwffe blasus gan y pwyllgor a chasglwyd £90. Mae'r casgliad yn dal ar agor a bydd croeso i unrhyw un gyfrannu drwy law llywydd y gangen, Irene Roberts, Pant Teg.

Diolchodd Irene i'r pwyllgor ac i Heulwen Jones, yr ysgrifenyddes, am drefnu'r noson yn ogystal â'r rhaglen ddiddorol ar gyfer y flwyddyn. Pleser mawr iddi oedd croesawu'n gynnes iawn saith o aelodau newydd ac mae croeso mawr i unrhyw un arall ymaelodi. Byddwn, fel arfer, yn cyfarfod ar y pedwerydd nos Iau o'r mis yn y Ganolfan am 7.30pm

Llongyfarchodd Irene Janet Greasley ar ddod yn Nain newydd sbon i Dei, mab bach Sion a Zoe, a dymunodd yn dda i'w merch, Beth, a briododd yn ddiweddar. Braf oedd gweld Pat wedi gwella'n ddigon da i ddod i'r cyfarfod ac hefyd Olwen Owen yn dilyn ei thriniaeth. Dymunodd yn dda i Mrs Doris Roberts wedi ei thriniaeth hithau ac hefyd i Rhian Ellis fu'n aelod ffyddlon o'r gangen o'r cychwyn cyntaf ond sydd bellach wedi symud i Lanrug. Cydymdeimlodd â'r aelodau gollodd anwyliaid yn ystod yr haf a theulu Mrs Kit Jones, fu'n aelod o'r gangen yn y gorffennol. Dymunodd yn dda i ieuenctid y pentref sydd wedi symud i goleg neu waith.

Gwaith llaw a Chelf gydag Elin Huws Jones, un o blant y pentref, fydd ein cyfarfod nesaf ar Hydref 22, ac ar Ragfyr 3ydd byddwn yn dathlu'r Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon.

**Babanod Bach Newydd** Llongyfarchiadau i Sharon a Steve, Stad Tref Eilian ac i Gethin, Ardwyn ar enedigaeth ŵyr bach. Ganwyd mab, Cynan, i Emma a Tim, brawd bach i Caleb a gor ŵyr i Sulwen Lewis, Stad Bryn Golau.

**Llongyfarchiadau** i Zoe a Sion Greasley, Sŵn y Gwynt, Stad Bod Hyfryd, ar enedigaeth mab, Dei John. Ŵyr bach i Pete a Janet, Pen-y-Berth a gor ŵyr i Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian ac i Gwladys a David Greasley, Min Afon. Croeso i Sion a'i deulu bach yn ôl i fyw i'r Waun.

**Croeso** hefyd i Gerallt, Hafod y Rhug a'r teulu i fyw i'w cartref newydd, Pant Gwyn. Dymunwn bob hapusrwydd ichi.

**Ganwyd** merch fach, Nel Seiriol, i Cerys a Dewi, Nant y Mynydd. Chwaer a ffrind fach i Ena a Nan. Llongyfarchiadau mawr ichi. Bydd Ena a Non wrth eu bodd yn helpu mam.

**Pen-blwydd Arbennig** Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus yn 18 oed i Alex Haycock, Rhwng y Ddwyryd. Ac i Gwenan Mair, Stad Tŷ Hen, Hannah Latham, Haul a Gwynt a Rosie Brown, 2 Bryn Golau a fu'n dathlu cyrraedd eu 21 oed yn ystod mis Hydref. Dymuniadau gorau i'r pedwar ohonoch i'r dyfodol.

**Dymunwn yn Dda** i Gwenlli (Glanfa) ac Enfys, Bwthyn Cadwgan, sy'n cystadlu yn frwd yn y rhaglen deledu 'Ar y Dibyn' ac hefyd i Dilwyn Jones, Gorwel y Môr, sydd â'r dasg anodd o feirniadu'r gystadleuaeth.

Ar y teledu gwelwyd Haydn a Glenys, Rhandir Mwyn yn mwynhau paned mewn caffi ar Ynys Môn!! Gobeithio ei bod yn baned dda.

**Anfonwn ein Cofion** gorau at Sion Prys Jones sydd wedi mynd i gael gofal ac i aros dros dro i Blas Pen Gwaith yn Llanberis. Hyderwn y byddi yn gwella a chryfhau, Sion.

**Adferiad Iechyd** Dymunwn adferiad iechyd buan i Roy Jones, Cynefin, wedi iddo gael triniaeth i'w lygaid yn Ysbyty Abergele.

Cafodd Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen, hefyd driniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd.

Hyderwn bod Mrs Emsul Jones, Stad Bro Waun, yn gwella wedi iddi anafu ei garddwrn drwy anffawd yn ei chartref. Hefyd mae Aron Morgan, Pen y Berth, yn gwella wedi anafu ei droed wrth gymryd rhan mewn gên bêl-droed gyda thîm Waunfawr.

**Dymunwn** wellhad buan i Manon Williams, Stad Bryn Golau, wedi iddi gael ei chymryd i'r ysbyty.

I Mrs Doris Roberts, wedi iddi gael llawdriniaeth i'w llaw ac i Mrs Nansi Williams, Stad Bro Waun wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty ar ôl cael anaf i'w chlun.

**Yn yr Ysbyty** Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad i Llywela Davies, Stad Tref Eilian sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Profedigaeth** Cydymdeimlwn yn ddwys â Meinir a theulu Trem y Foel yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt a oedd yn byw yn y Bontnewydd.

Cydymdeimlwn hefyd â Mary, Llwyn Afon, a Margaret, Y Dalar Deg, yn eu profedigaeth o golli eu brawd.

**Eglwys y Waun** Fore Sul, Medi 27, o dan ofal athrawon ac aelodau yr Ysgol Sul, cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Cymerwyd rhan hefyd gan Andrew Settatree, arweinydd y Cynllun EFE yn eglwysi yr ardal. Mrs Gwenda Griffith oedd yr organyddes.




Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277


**Gwasanaethau yr Eglwys am fis Tachwedd**

| | |
|---|---|
| 1: | Oedfa Aelodau – Rob, Alma ac Olwen |
| 8: | Y Parch Nan Wyn Powell Davies (Cymun) |
| 15: | Mrs Nerys Griffith |
| 22: | Cyfarfod Gweddi a Thrafodaeth |
| 29: | Parch Eric Jones. |


ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

# Er Cof am John Nathaniel

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth yr annwyl John Nathaniel Owen. Roedd John yn gymeriad unigryw a mawr fydd y golled a'r gwacter ar ei ôl i'w deulu a'i ffrindiau.

Cefais y pleser o dyfu i fyny gyda John yn y Waunfawr ac mae'r atgofion a'r hwyl a gefais yn ei gwmni wedi aros yn ddwfn yn y cof. Dyn bychan o ran maint oedd John, ond eto dyn mawr o ran ei garedigrwydd, ei gyfeillgarwch a'i gymwynas. Chwerthin fyddai John Nathaniel bob amser, a chwerthin yn uchel gan dynnu sylw pawb arall i chwerthin gydag ef. Cofiaf un tro yn yr Ysgol Gynradd a John, fel arfer, yn sedd gefn y dosbarth yn chwerthin a chadw reiat a Mr D. Idris Jones, y prifathro, wrth y bwrdd du, yn amlwg wedi syrffedu, yn gweiddi ar draws yr ystafell,

'John Nathaniel barablyd, swnllyd, fusneslyd, Edward Owen, un smic eto a mi fyddi'n sefyll yn y gornel hefo dy drwyn at y pared a dy ddwylo ar dy ben!'

Pan ailsefydlwyd Seindorf Arian Waunfawr yn y chwedegau cynnar, ymaelododd nifer o'r pentrefwyr â'r band, gan gynnwys John Nathaniel. Ar noson gyntaf yr ymarfer a'r offerynnau i gyd wedi eu dosbarthu, yr unig offeryn ar ôl i John oedd y drwm. Dyna beth oedd hwyl y noson honno, sŵn chwerthin mawr John Nathaniel tu ôl i'r tabwrdd mawr crwn, yn ei daro'n ddidrugaredd heb unrhyw fath o amseriad.

Roedd yn arferiad cyn y Nadolig i'r band fynd o gwmpas yr ardal i ganu Carolau, ac ar noson oer drybeilig ym Metws Garmon gyda'r seindorf yn chwarae ar ochr y lôn bost, penderfynwyd o ran diogelwch fynd i'r cae gyferbyn ar lan Afon Gwyrfai. Wedi i bawb ymgynnull ar y dorlan i ailgychwyn chwarae, clywyd gweiddi a chwerthin mawr o gyfeiriad clawdd y lôn'

'HELPWCH FI'R DIAWLAD. Hi! Hi! Hi! HELP, DWI'N SOWND!'

Pwy oedd yn gweiddi? Ie, neb llai na John Nathaniel. Yn ei hast i ddilyn y gweddill fe wasgwyd yr hen gyfaill, ynghyd â'r drwm, yn y giât fochyn oedd yn arwain i'r cae. Achubwyd a llusgwyd y caeth druan o'i enbydrwydd wedyn gan rai o'r bandwyr eraill. Hanner cylch o wartheg duon yn rhoi ambell fref oedd yr unig garolwyr y noson honno ac yn amlwg yn mwynhau y gerddoriaeth ar lan yr afon.

Rai nosweithiau yn ddiweddarach ymwelodd y band â Rhosgadfan a thra roeddynt yn paratoi yr offerynnau ar sgwâr y pentref gadawodd John y drwm i sefyll wrth wal y lôn cyn mynd i siarad â hen ffrind ysgol wrth ymyl. Golygfa fythgofiadwy i bawb oedd gweld John Nathaniel yn rhedeg fel milgi ar ôl y drwm wrth iddi rowlio i lawr yr allt tuag at Rhostryfan. Llwyddodd yr hen frawd rywsut neu'i gilydd i achub y drwm eiliadau cyn i un o fysys Nedw ymddangos rownd y tro yng ngwaelod yr allt. Roedd wyneb Mr Davies, y band feistr, yn gochlas wrth i John ddychwelyd i'r sgwâr. Gŵr o gymoedd y de oedd 'Rhen Ddefis Cornet' fel y'i gelwid a rhywbeth tebyg i hyn oedd y bregeth gafodd y drymiwr:

'Beth yffach ichi'n feddwl chi'n wneid fachgen? Oes colled arnoch chi ta beth? Os gyda chi rhyw fath o syniad faint mae'r drwm yma wedi gosti?' Beth oedd ymateb John Nathaniel? Ie, chwerthin yn uchel.

Cofiaf John un tro yn prynu llond bocs mawr o lestri ar un o stondinau maes Caernarfon cyn camu ar y bys dybl dec Whiteway yn ôl i'r Waun. Wrth i'r bws gyrraedd y pentref, ni chlywodd y gyrrwr ganiad cloch y tocynnwr i adael i John fynd lawr. Dyna beth oedd golygfa a hanner wedyn, John ar ei gefn ar y pafin a'i goesau yn yr awyr gyda'r llestri yn deilchion o'i gwmpas wedi iddo neidio oddi ar blatfform y dybl dec.

Yn y chwedegau a'r saithdegau ar adeg gwyliau'r Pasg a'r Nadolig cynhelid gemau pêl-droed yn gyson rhwng pentrefi Caeathro a'r Waunfawr. Roedd rhain yn gemau cystadleuol a dweud y lleiaf ac, ar un achlysur, cofiaf un o chwaraewyr y Waun yn sgorio gôl ardderchog o bum llath ar hugain heibio golwr Caeathro, yr anfarwol Aled Lodj. Tra bod hogiau'r Waun yn dathlu'n llawen, canslwyd y gôl gan y dyfarnwr i fawr brotest y tîm. John Nathaniel, yr asgellwr chwith, oedd ar fai trwy gamsefyll tra'n siarad â ffrind ger yr ystlys. Ni chlywodd John ddiwedd ar bethau am fisoedd wedi hynny.

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun, cofiaf John yn un o dafarnau'r dref yn cysgu'n drwm ar gadair. Tra yn ei drwmgwsg ac yn ddiarwybod iddo aeth tair o ferched direidus ati i goluro ei wyneb gyda masgara a minlliw o wahanol liwiau. Anghofia i fyth ei ddychryn ar ôl deffro, yn rhedeg o'r tŷ bach ar ôl gweld ei wyneb lliwgar yn y drych a gweiddi,

'Hogia! Hogia! Mae 'na Red Indian yn yr hen doilet na!'

Yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin ymwelodd John gyda ffrind â marchnad anifeiliaid gyfagos. Yn ystod gwerthiant y lloeau duon a'r ffermwyr yn eu tro yn codi eu dwylo gyda'u cynigion, cododd John yntau, o ran myraeth, ei law ac i'w fawr ddychryn gwaeddodd yr arwerthwr yn uchel gan bwyntio ato,

'Sold to the gentleman over there.' Heglu oddi yno fu'r hanes a dyna beth oedd hwyl o weld John o dan un o fyrddau tafarn Y Ceffyl Du yn cuddio bob tro y deuai rhywun tebyg i ocsiwniar i mewn drwy'r drws.

Roedd John yn bleidiwr mawr gyda'i barch ac edmygedd o Dafydd Wigley yn amlwg i bawb, yn enwedig amser etholiad pan fyddai'n mynd o gwmpas yr ardal i ganfasio dros Blaid Cymru.

Mae llawer mwy o hanes a helyntion am John Nathaniel, ond wir mae angen cyfrol drwchus i gofnodi y cwbl. Er mai un o Feganifs y Waun oedd John, bu'n byw am flynyddoedd yn Rhosgadfan, cyn symud wrth i'w iechyd ddirywio yn ôl i'r Waun, lle treuliodd ei ddyddiau olaf.


Diolch John am yr holl chwerthin, a heddwch dy lwch.

John Nathaniel Edward Owen 1946-2015

Gwilym Morris Jones






## Gwaith Bac disgyblion Ysgol Brynrefail








Amy Evans, Angharad Dobson, Gwenno Griffith a Lowri Jones

Fel rhan o waith Bac roedd rhaid i ni fel grwp godi arian tuag elusennau o'n dewis ni. Cawsom lawer o hwyl yn coginio a gwerthu cacennau i staff a disgyblion yr ysgol. Casglwyd £100 ar gyfer ein elusennau sef Ysgol Pendalar a NDCS.

Penderfynodd ein grwp ni i godi arian at elusen 'MacMillan' drwy drefnu coffi a chacennau i'r staff a'r chweched dosbarth yn llyfrgell yr ysgol. Roedd y bore coffi yn llwyddiant enfawr, gyda nifer dda o staff wedi dod â chacennau blasus i'w gwerthu. Rydym yn hapus iawn gyda chanlyniad y bore coffi ac wedi llwyddo i gasglu £225 at elusen MacMillan.

## Cyngor Ysgol Brynrefail

Blwyddyn 7: Beca Hughes a Deio Roberts; Blwyddyn 8: Iolo Jones ac Eleri Jones; Blwyddyn 9: Ynyr Pritchard ac Elin Worth; Blwyddyn 10: Miriam Lenon Jones a Mabon Pritchard; Blwyddyn 11: Beca Roberts a Morgan Jones; Blwyddyn 13: Alaw Prys a Rhidian Price.






Grwp Arwel, Gwion, Gethin, Lois a Rose
Aeth y grwp yma at i drefnu twrnamaint pêl-foli elusennol ar gyfer Cymdeithas Clefyd Motor-Neurone. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn y Neuadd Chwaraeon rhwng yr athrawon a'r chweched dosbarth wrth gymryd rhan yn y twrnamaint pêl-foli gan gasglu hyd at £50 ar gyfer yr elusen.

## Her y Gymuned

Mae myfyrwyr bl.12 eleni wedi dechrau ar gymhwyster newydd y Fagloriaeth Gymreig sy'n disgwyl iddynt gwblhau pedair her.
Un o'r heriau yw 'Her y Gymuned' sy'n gofyn i fyfyrwyr dreulio 30 awr yn hyfforddi yn y gymuned. Yn dilyn sawl cyflwyniad gan aelodau o Uwch Dîm Rheoli'r ysgol i'r myfyrwyr penderfynwyd sefydlu system o fentora ffurfiol yn yr ysgol. Myfyrwyr bl.12 eu hunain fydd yn gyfrifol am y cynllun yma - Maent eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gefnogi disgyblion gyda'u gwaith Rhifedd a Llythrennedd yn ystod y cyfnodau cofrestru ac, yn fuan, byddent yn cefnogi mewn gwersi hefyd.
Rydym fel ysgol yn edrych ymlaen at weld myfyrwyr bl.12 yn meithrin perthynas gynhaliol gyda'r disgyblion iau tra'n datblygu nifer o sgiliau personol pwysig eu hunain fel effeithiolrwydd personol, cyfathrebu a hunanhyder. Hefyd, rydym yn bendant y bydd disgyblion iau'r ysgol yn elwa'n fawr o gael y gynhaliaeth werthfawr yma gan eu cyfoedion.






## Cystadleuaeth Caiacio Ysgolion Gwynedd, Llyn Padarn

Genethod Blwyddyn 7 a 8 – 1af

Bechgyn Blwyddyn 7 a 8 - 2ail
1. Iwan Griffith
2. Mathew Davitt
3. Daniel Joyce

Genethod Blwyddyn 7 a 8 - 1af
1. Natalie Meek
2. Lowri Collins
3. Elin Thomas

Genethod Blwyddyn 9 a 10 - 2ail
1. Elan Jones
2. Ffion Jones
3. Anna Whiteside

## DEINIOLEN Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

# Cylch Meithrin



Hoffwn groesawu saith plentyn sydd wedi dechrau gyda ni yn y Cylch ers mis Medi. A chroeso mawr i'w rhieni hefyd! Mae lle o hyd i unrhyw riant sydd â phlentyn dwy a hanner rhwng mis Medi 2015 a mis Awst 2016, i gofrestru eu diddordeb gyda ni yn y Cylch. Rydym ar agor rhwng 9 ac 11 y bore o fore dydd Llun tan fore Gwener.

Cynhaliwyd ein cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Medi. Roedd yn braf iawn cael gweld cymaint o wynebau newydd sydd wedi dangos eu parodrwydd i helpu gyda'r holl ddigwyddiadau codi arian sydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn. Cymerwn y cyfle hefyd i ddiolch yn fawr i Jamie Taylor am ei chyfraniad i'r Cylch dros y ddwy flynedd diwethaf fel Cadeirydd ein pwyllgor. Hoffwn gymryd y cyfle hefyd i ddiolch yn fawr iawn am yr holl gefnogaeth yr ydym wedi ei dderbyn gan y gymuned agos a phell dros y flwyddyn a'r misoedd diwethaf. Diolch arbennig i Fingo Tŷ Elidir, Gŵyl Deiniolen a'r Cylch, Chwarel Penrhyn, Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. Mae cyfraniadau o unrhyw fath yn gymorth anferthol i ni fel Cylch ac mae'r arian yn cael ei ddefnyddio ar adnoddau sydd yn helpu plant y Cylch yn uniongyrchol.

Diolch i Grŵp Wilmott Dixon am eu gwaith adnewyddu i adeilad y Cylch, y tu mewn ac allan. Cafodd y gwaith ei ariannu gan gronfa Arbed, llywodraeth Cymru. Rydym yn siŵr eich bod yn cytuno fod y Cylch yn edrych yn wych ac yn groesawgar iawn!

Edrychwn ymlaen i weld plant, rhieni a thrigolion Deiniolen a'r cylch yn ein noson Tân Gwyllt ar nos Fercher, 4ydd o Dachwedd, yn iard Ysgol Gwaun Gynfi am 6.00 yr hwyr. Diolch i Gŵyl Deiniolen a'r Cylch am eu cyfraniad penodol tuag at y noson. Dewch am hwyl a danteithion lu!

**Merched y Wawr** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Lun, y 21in a Dachwedd. Croesawyd pawb yn ôl am dymor arall gan edrych ymlaen am flwyddyn o dathlu pen-blwydd y gangen yn 40eg oed. Er siom ni fu'n bosib i'r gwestai gwadd fynychu oherwydd salwch. Camodd Ann i'r bwlch gan drefnu cwis difyr i bawb ar wledydd a phrif ddinasoedd Ewrop. Cafwyd paned a sgwrs i orffen y noson.

**Gŵyl Deiniolen a'r Cylch** Cynhelir noson yng nghwmni David Brailsford ar nos Lun, Tachwedd 30, am 7.30 yn Ysgol Brynrefail. Dewch i glywed hanes ei yrfa hynod lwyddiannus a'i fagwraeth yn Neiniolen. Ticedi ar gael trwy'r ysgol neu gweler fanylion ar y posteri

**Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch** Ceir canlyniadau llawn yr Eisteddfod yn rhifyn nesaf yr Eco

**Y Gymdeithas Undebol** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn ddiweddar gyda'r Parchedig John Pritchard yn Llywyddu. Croesawyd aelodau newydd ac roeddym yn falch o weld rhai oedd wedi bod yn yr ysbyty ac yn gwella ac wedi cael dod adref.

Cawsom noson ddifyr yng nghwmni ein gwraig wadd, Annette Bryn Parri. Cawsom ein cyflwyno i sain cerddoriaeth byd y ffilmiau oedd yn hynod o ddifyr a chyfle i brocio'r cof. Diolchwyd iddi yn gynnes am agor tymor newydd y Gymdeithas.

Hefyd cydymdeimlodd Mr Bryan Price â'n Llywydd yn ei brofedigaeth yn ystod yr haf.

**Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist** Diolch am y Cymdeithasau sydd yn rhoi pleser a mwynhad i lawer o drigolion bro'r Eco. Dydd Mercher, Medi 23, aeth aelodau a chyfeillion o'r Gymdeithas ar daith i Ynys Môn. Yn gyntaf aethom i Oriel Môn yn Llangefni, lle hynod ddiddorol yn dangos amrywiol agweddau o hanes a bywyd ar yr Ynys dros y blynyddoedd.

Yna teithio ar draws yr ynys i Foelfre ac i Amgueddfa'r Bad Achub lle roedd aelod o'r Bad Achub yn ein cyfarfod, sef Steve Owen. Arweiniodd ni drwy hanes o sefydlu'r Bad Achub a gwrhydri trigolion Moelfre yn ystod llongddrylliad y Royal Charter yn 1857. Cawsom hanes Richard Evans, llywiwr y Bad Achub yn mynd allan i achub criw o wyth mewn storm ym mis Hydref 1957. Yna aeth â ni i safle'r Bad Achub newydd. Roedd maint y Bad Achub yn anferth gyda'r enw 'KIWI' gan mai gŵr o Seland Newydd oedd wedi cyfrannu £2.2 miliwn er mwyn i Foelfre gaen Bad Achub newydd. Mae pob offer diweddaraf ar y cwch er mwyn hwyluso gwaith y criw. Syfrdanwyd ni pan ddywedodd Steve Owen, pe buasai'r peiriant sydd yn agor y drysau enfawr yn methu ac angen i'r Bad Achub fynd allan, buasent yn gollwng y Bad a buasai yn mynd trwy y drysau ac i'r môr! Anhygoel! Cyn dod adref cawsom bryd blasus yn siop sglodion enwog Moelfre.

Yna ar ddydd Llun, Hydref 5, cawsom ginio Diolchgarwch yn y Coffee Pot, Llanberis. Y siaradwr gwadd oedd John Gareth Parry, cyn offeiriad yn y plwyf. Sgwrsiodd John am gymeriadau'r Esgobaeth yn y ganrif ddiwethaf, a thipyn o gymeriadau oeddynt hefyd!

**Diolch** Dymuna Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, a Miss Cissie Rowlands, Gorlan y Bont, ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn, arian a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt gan ffrindiau a chymdogion yn ystod eu profedigaeth o golli eu chwaer yng Nghaernarfon. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Diolch** Dymuna Iris, 9 Hafan Elan, Llanrug a Gwyneth a Maldwyn, Bontnewydd, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn, sef Gwladys Jones, Deiniolen, gynt. Diolch am y rhoddion hael o £600 tuag at Gartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis, lle cafodd ofal arbennig gan yr holl staff yno. Diolch i'r Parchedig Olaf Davies am y gwasanaeth yn yr Amlosgfa ym Mangor ac yn olaf i Gwynfor Jones (E.W. Pritchard) am y trefniadau trylwyr, gofalus ac urddasol.

# Yr Hen Ysgol Dinorwig

Do, mi fûm innau yno ddiwedd Awst eleni ar ôl bod ym Mynwent Macpela, Deiniolen, yn rhoi blodau ar fedd fy Nhad a Mam. Roedd yn brynhawn braf ac mi ddywedodd fy ngŵr, Griff, beth am fynd am baned i'r Hen Ysgol cyn troi adra i Dalysarn.

Ar ôl cyrraedd daeth llu o atgofion imi – byddwn yn cerdded o'r Fachwen bob bore ers yn 4 oed, trwy wynt a glaw weithiau ac yn ôl wedyn ar ôl i'r ysgol gau. Pan yn wlyb byddem yn cael sychu ein cotiau o flaen tanllwyth o dân yn yr ystafell ddysgu. Fy athrawes gyntaf oedd Miss Jones o Ddeiniolen – dynes fawr o gorff a mawr ei dylanwad. Llawchwith oeddwn ac ydwyf ond doedd hyn ddim yn plesio Miss Jones a phob tro pan yn pasio fy nesg byddai yn tynnu'r bensil a'i rhoi yn fy llaw dde, a chyn gynted y byddai'n pasio byddai'r bensil yn ôl yn y llaw chwith. Cofiaf iddi unwaith droi yn ôl yn sydyn a rhoi coblyn o slap ar fy llaw gyda hudlath (ruler) nes i'r ddimai oedd ar fy nesg rowlio i'r llawr – welais i byth mo'r ddimai roeddwn wedi ei chael gan mam na'r taffi yr oeddwn am ei brynu yn Siop Catrin, ger Chwarel Fawr. Roeddem yn cael mynd o'r ysgol amser cinio – dim sôn am 'road safety' adeg hynny. Enw'r taffi oedd Big Ben, un mawr hir am geiniog ac un llai am ddimai, a blasus oeddynt hefyd. Tua 11 o'r gloch y bore caem Horlics mewn mwg yn y gaeaf a photel hanner peint o lefrith yn yr haf – twll yn y caead a sugnwr i'w sipian.

Mr J.E. Williams oedd y Prifathro a theimlwn yn blant mawr yn ei ddosbarth ef – dosbarth y 'scholarship'. Os oeddech yn ddysgwr da, gwyn eich byd ond os nad oedd gennych archwaeth at ddysgu, druan ohonoch. Cefais i amser da yn nosbarth Mr Williams. Gan fy mod wedi dysgu darllen cyn mynd i'r ysgol. Byddai Mr Williams yn fy rhoi i ofalu am griw o'r plant nad oeddent yn hyddysg mewn darllen ac ambell un o'r hogiau yn neidio paragraff yn aml. Bob nos Wener, caem ddewis llyfr o'r Llyfrgell i fynd adra efo ni. Cofiaf un tro pan yn methu cael llyfr i'm plesio dyma Mr Williams yn dweud,

'Wir, Enid, fedra i ddim dal i fyny â chi, rydych wedi darllen pob llyfr sydd yma neu mae nhw gennych gartre a cha i ddim stoc newydd o Gaernarfon tan ddiwedd y mis.' Byddai fy nhad, oedd yn chwarelwr, yn mynd i'r dre bob Sadwrn Cyfrif Mawr ac yn dod â llyfr Cymraeg i mi – fel 'Dai y Dderwen' a 'Cario'r Post' i enwi ond ychydig ohonynt a byddwn wrth fy modd yn eu darllen.

Mwynheais fy mhlentyndod yn Ninorwig a phasio'r 'scholarship' i fynd i'r County School y mhentref Brynrefail adeg hynny. Fy mhrif bwnc yno oedd Cerddoriaeth a Chymraeg a heddiw mae fy mab yn bennaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych ac yn gerddor llwyddiannus.

Am ryw reswm roedd rhan o'r hen ysgol wedi ei chau pan ymwelais â hi. Hoffwn fod wedi cael mynd i 'cloakroom' y merched. Rwy'n meddwl mai rif saith oedd y peg lle rhoddwn fy nghot arno a hyd heddiw mae y rhif saith yn bwysig ac yn lwcus i mi.

Teimlad digon rhyfedd oedd mynd yn ôl i'r hen ysgol a gallaf yn awr ddeall sut roedd T.H. Parry-Williams yn teimlo wrth fynd yn ôl i Rhyd-ddu a gweld ei gartref. Yn un o'i sonedau mae'n dweud:

'Ond wele rhwng llawr a ne', mae lleisiau a drychiolaethau ar hyd y lle.'

Enid Jones

Bryn Celli Talysarn




**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk


## Amser tymhorol

Eleni, fel erioed mae'r cwm
yn 'balet' lliwgar coeth,
rhyw artist cudd a'i frws yn drwm
orchuddiodd lethrau noeth…

Manet, Van Gogh – pob paentiad drud
o'u heiddo'n ddim tra bo
yr hydre'n gryf ar ganfas byd
a'r effaith drwy'r hen fro.

O edrych tua'r bwlch tros lyn
a'r coedydd ar bob llaw,
porffor breiniol yw grug y bryn,
bathdy yw'r bedw draw.

Tawdd efydd newydd yw'r hen allt
â'r deri arni'n troi…
hyn dyna ddeigryn rhydd os hallt
o deimlo'r oll yn ffoi!

*Norman Closs*




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# I'r Gad



Comisiynwyd 'I'r Gad, Fechgyn Gwalia!' gan yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis i gyd-fynd ag arddangosfa newydd 'Tros Ryddid ac Ymerodraeth' sydd i'w gweld ar y safle.

I'r rhai fu'n ddigon ffodus i gael gweld y cynhyrchiad, daeth hanes ymgyrch recriwtio Y Rhyfel Byd Cyntaf yn ardal y chwareli llechi yn fyw yn y ddrama drwy lygaid dau frawd sy'n gweithio yn y chwarel

Siwan Llynor oedd yr awdur a'r gyfarwyddwraig ar ran Theatr Bara Caws, ac yr oedd y cast yn cynnwys Dyfan Roberts, Owen Arwyn, Manon Wilkinson a Gwion Aled.

Ond yn ystod y perfformiadau olaf cafodd Deian Williams o Lanrug gyfle i gymryd rhan fel drymiwr a thrwmpedwr, a gwnaeth ei waith yn hynod effeithiol.

Nid drama 'arferol' mo hon, gyda'r gynulleidfa'n eistedd yn eu seddi a'r cast yn perfformio ar lwyfan. Roedd angen i'r gynulleidfa symud o un lleoliad i'r llall a bod yn rhan o'r perfformioad – yn y capel a'r caban, a hynny yn rhoi profiad byw iddynt.

Ac yn ddi-os, roedd y profiad hwnnw yn un ysgytwol. Roedd sawl un yn sychu deigryn ymhell cyn y diweddglo trawiadol. Does ond canmoliaeth i bawb fu'n gysylltiedig a'r achlysur, a thrueni nad yw'n bosib mynd a'r cynhyrchiad hwn ar daith, nid yn unig i hen ganolfannau eraill y chwareli llechi, ond i Gymru ben-baladr.



# Ymweliad y Gronfa Loteri Fawr, Cymru

***"Byddwn yn parhau i ddefnyddio arian o'r Loteri Genedlaethol i helpu pobl i ddatblygu eu hatebion eu hunain i'r problemau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu, a byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda sefydliadau gwych, megis Antur Waunfawr."***







Cynhaliodd Antur Waunfawr ddigwyddiad rhanddeiliaid ar ran y Gronfa Loteri Fawr, Cymru y mis diwethaf, drwy glirio eu siop ddodrefn i ddarparu ar gyfer mwy na 70 o gynrychiolwyr.

Ymwelodd y Pwyllgor a dau o'r prosiectau lleol a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr, Cymru, sef GISDA a Beics Menai (rhan o deulu Antur Waunfawr). Dilynwyd hyn gan gyfarfod a gynhaliwyd yn y Warws Werdd, lle gwrandawyd ar gyflwyniadau a wnaed gan Mantell Gwynedd a Menter y Felin Uchaf. Gwnaeth Syr Adrian Webb, Cadeirydd Pwyllgor Cymru ddwyn yr achos i ben.

Mae Cronfa Loteri Fawr, Cymru wedi helpu i drawsnewid cymunedau yng Ngogledd Cymru, gan roi cyfleoedd i sefydliadau lleol gwrdd â'r heriau a wynebir ymhlith pobl ifanc, diweithdra, unigedd gwledig ac incwm isel.

Meddai Menna Jones, Prif Weithredwraig Antur Waunfawr: "Mae'r Loteri wedi bod yn bwysig iawn i ni – mae'r Antur wedi derbyn dwy grant yn y gorffennol, ac mae'r ddwy ohonynt wedi ein helpu i sefydlu canghennau pwysig i'r cwmni. Mae'r Warws Werdd, ein prosiect ailddefnyddio dodrefn a dillad, yn dathlu ei phen-blwydd yn 10 oed eleni ac, gyda chymorth y Loteri, mae ein hailgylchu a gwasanaeth llarpio cyfrinachol wedi mynd o nerth i nerth. "

Dywedodd Cyfarwyddwr Cymru John Rose: "Mae ein cenhadaeth i ddod â gwelliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth, a dyna pam yr ydym wedi lansio ein fframwaith strategol newydd yn ddiweddar, sydd â'r nod o roi pobl a'u cymunedau yng Nghymru ar y blaen. "

## LLANBERIS Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

# Ysgol Dolbadarn




### Taith Ysgol Dolbadarn i fyny'r Wyddfa.

Dyma erthygl a ysgrifenwyd gan Lily Cousins ar gyfer cylchgrawn a gwefan y 'British Mountaineering Council'.Cyfieithywd y testun i'r Gymraeg gan Guto Selwyn Williams.

Dydi plantos Llanberis ddim yn segur pan yn cerdded y bryniau - neu wrth ganu ar y copa. Disgrifia Lily Cousins,y gohebwraig ieuengaf ei hanes, y daith o ddringo'r Wyddfa...

Dydy hyn ddim yn newydd i neb ond dwi wedi bod yn rhan o dim dringo cyntaf y mynydd yma gan yr ysgol gynradd leol. Aeth pedwar deg pedwar o blant ac oedolion o Ysgol Dolbadarn, nol ym mis Gorffennaf, ar daith fyny'r Wyddfa gan ddechrau ar drac y Mwynwyr, Pen y Pas a thrac Pen y Gwryd, gan fentro am y copa ac yn ôl i Lanberis. Tra roedd plant yn cael gwersi yn eu dosbarthiadau roeddan ni'n cael hwyl ymysg yr Wyddfa a'i chriw!

Mae pob agwedd o ddringo'r mynydd yn arbennig oherwydd mae ein hysgol ni mor agos i'r llwybrau ac mae digon o weithgareddau yn digwydd yn aml yma.

Mae ffrindiau gen i yn ffermio yn y dyffrynoedd, ac mae pedwar ffrind gen i yn rhedeg caffis a gwestai o hanner ffordd i lawr i'r stryd fawr.

Mae fy athro yn fab i dywysydd mynydd ac mae fy nheulu yn wyrion i dywysyddion mynydd.

Mae aelodau eraill o'r teulu yn gweithio ym Mhlas y Brenin a Rheilffordd yr Wyddfa ac yn rhan o dîm achub.

Cyrhaeddodd y bws am wyth y bore i fynd ag athrawon, gwirfoddolwyr a thri deg pedwar o blant am Pen y Pas.

Er fod rhai wedi arfer roedd yn her fawr i bawb ac meddai ein Prifathrawes …y buasai yn gorfod hyfforddi am flwyddyn cyn bod yn aelod o'r tîm dringo!

Mae'r daith yn eitha hawdd ar y dechrau o'r trac y mwynwyr, ond wedyn yn serthu am y llynnoedd a Llyn Glaslyn.

Yma ceir ein hatgoffa o chwedl Arthur a bwystfil Llyn Yr Afanc.

Yn dilyn hyn ceir llwybrau igam ogam go iawn a llawer o blant yn chwerthin a cholli gwynt!

Fel ydych yn agosau at y copa mae'n braf cael golygfa o'r mynyddoedd ar cyffiniau. Clywir y tren ac mae cyrraedd y copa yn wefreiddiol - sef man uchaf Cymru a Lloegr.

I orffen cafodd pawb wledd wrth glywed y plant yn canu Calon Lan, sef hen-emyn draddodiadol, cyn dychwelyd adra.

Manylion y trip-

Amser cerdded-5 awr. Gadael am 8.30 a dod yn ol am 3.30 a hanner awr o orffwys.

Pellter-12 cilomedr

Uchdwr-730 medr

Tymheredd-17 celsiws yn y dyffryn ond yn y cysgod ar gwynt teimlai fwy fel5 celsiws a gwelsom lot o hetiau a menig yn dod allan.

Cyfartaledd oed-10 a thri chwartar achos yr oedolion!

### Cyngor Ysgol

| | |
|---|---|
| Cynrychiolydd Blwyddyn 6 | Caio Thomas(cadeirydd) |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 6 | Molly Green (ysgrifennydd) |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 5 | Cian Jones |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 5 | Nel Hughes Jones |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 4 | Charlie Jackson |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 4 | Awel Davies |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 3 | Bella |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 3 | Finlay Jackson |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 2 | Meilir Jones |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 2 | Hannah Thoss |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 1 | Cai Jones |
| Cynrychiolydd Blwyddyn 0 | Lisa Rowlands |
| Cynrychiolydd Meithrin | Guto Selwyn Williams(trysorydd) |

Cyngor Ysgol Dolbadarn 2015-6

Dyma ganlyniad yr etholiad ar gyfer cynrychiolwyr y Cyngor Ysgol yn ddiweddar- mae blwyddyn prysur iawn o'u blaenau!

Bu Sioe 'Mewn Cymeriad' yn yr ysgol yn adrodd hanes Owain Glyndŵr yn ddiweddar- mwynhaodd y plant y sioe yn fawr iawn a dwi'n siwr iddynt gael ei hysbrydoli yn fawr. Bydd y sesiwn hwn yn atgyfnerthu ein gwaith Siarter Iaith eleni.

**Chwaraeon:** Pleser oedd croesawu tim pêl droed Ysgol Waunfawr atom yn ddiweddar i chwarae gêm gyfeillgar. Diolch am ddod draw i Gae'r Ddôl ac edrychwn ymlaen i'r gêm nesaf. Diolch i'r athrawon caredig am roi eu hamser i'r ddau dim.



GAREJ CERIS JONES
Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol
Llanrug 01286 677362 07979620996

ECO'r Wyddfa
Cefnogwch ein hysbysebwyr

## Parhad LLANBERIS

**Cyfeillion Plas Pengwaith** Enillydd y Bel Bonws am Fis Medi oedd Miss Kate Owen.

**Ffair Nadolig yn Capel Coch** ar ddydd Mawrth, 3ydd o Dachwedd, am 2 o'r gloch y prynhawn. Pris mynediad £1, elw at Adnoddau'r Capel. Stondinau lu, dowch i gael sgwrs, paned a bargen!

**Diolch** Dymuna Rhiannon Evans a Gillian, teulu y ddiweddar Helen Lloyd, Stryd Y Ffynnon, Llanberis, gynt o Marl Drive, Cyffordd Llandudno, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl iawn. Diolch yn fawr am yr ymweliadau, cardiau a rhoddion hael tuag at Feddygfa Llanberis. Diolch yn fawr i Dr Parry a holl staff y Feddygfa ac i Ward Padarn, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal caredig. Diolch yn fawr i'r Parchedig Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno, am ei wasanaeth a'i gefnogaeth ac i Gwynfor Jones, o Gwmni E.W. Pritchard Llanberis, am ei wasanaeth trylwyr.

**ER COF AM W.T. ROBERTS** (Will Lôn-bost) Er cof am ŵr, tad a thaid anwylaf, a'n gadawodd 19eg o Hydref, 1993.

" Hiraeth nid âi byth yn hen"

Ei briod, Eunice, Helen, Gwilym, Derlwyn, Edryd, Sion, Yorkie, Andrew, Louise, Ella XXX

**Diolch** Dymuna Ann, 17 Ffordd Capel Coch, ddiolch i bawb a gyfrannodd mor hael i'r Bore Coffi Macmillan a gynhaliwyd ar y 24ain o Fedi yn ei chartref. Gwnaed elw o £347 ar y bore. Diolch i bawb!

**Ymweliad Côr Dulyn** Yn ystod y penwythnos, y 9fed-11eg o Hydref, bu Côr Meibion Dyffryn Peris yn croesawu côr o Ddulyn, The People's Choir, i Lanberis.

Hyfryd oedd gweld cynulleidfa mor dda wedi dod i wrando ar dri chôr, The People's Choir, Côr Dyffryn Peris a Chôr Plant Ysgol Dolbadarn, yn Eglwys Padarn ar Nos Wener, Hydref y 9fed.

Brynhawn Sadwrn fe aed â'r gwestion ar daith i Frongoch, Y Bala, safle sydd â chysylltiad hanesyddol bwysig ag Ymgyrch Annibyniaeth Iwerddon. Tywyswyr y daith oedd dau aelod o Gôr Dyffryn Peris, Arwel Jones a David Price.

Trefnwyd Noson Gymdeithasol i'r gwestion yn Dolbadarn ar y nos Sadwrn.

**Clwb Gwawr yn ardal Llanberis** Cynhelir y noson drwy'r Gymraeg, ond mae croeso cynnes i ddysgwyr ymuno. Ar gyfer y noson, mae cwis bach wedi ei baratoi ac wedyn mi fydd digon o amser i drafod beth ydy Clwb Gwawr ac i weld a oes diddordeb mewn dechrau un yn yr ardal. Esgus da i ferched cael noson allan unwaith y mis!

Os gwyddoch am unrhyw ferch yn yr ardal sy'n addas i fynychu ar y noson, buaswn yn ddiolchgar iawn petasech yn gallu cysylltu efo nhw ar fy rhan.

Bronwen Wright

Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr (Gogledd)

01978 762243 / 07801 099786

### Oedfaon Sul Capel Coch am fis Tachwedd

| | |
|---|---|
| 1af: | Mr Euron Hughes 10yb; Parchedig Euros Jones 5yh |
| 8fed: | Gweinidog 10yb; Oedfa MOLI 5yh |
| 15fed: | Mr Andrew Settatree 10yb a 5yh |
| 22ain: | Oedfa Deulu 10.30 yb |
| 29ain: | Mr Ifor Glyn 10yb; Parchedig W.R. Williams 5yh |

## Cyfrifon Eco 2014-15

**ECO'r Wyddfa**

**Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2015**

| 2013-14 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Incwm** | | | |
| | 6945.99 | Gwerthiant | | | 8294.26 |
| | 10575.00 | Hysbysebion | | | 8342.47 |
| | 200.00 | Dosbarthu taflenni | | | 200.00 |
| | 1830.50 | Rhoddion | | | 2071.40 |
| | | Grantiau | | | |
| 1870.00 | | Llywodraeth Cymru | | 1870.00 | |
| | | Cynghorau Cymuned | | | |
| 500.00 | | Llanberis | | 500.00 | |
| 300.00 | | Llanddeiniolen | | 400.00 | |
| 700.00 | | Llanrug | | 700.00 | |
| 200.00 | 3570.00 | Waunfawr | | 200.00 | 3670.00 |
| | -10.00 | Cystadleuaeth Tlws yr Eco | | | 65.00 |
| | 8.16 | Llôg Banc | | | 5.97 |
| | 23119.65 | | | | 22649.10 |
| | | **Gwariant** | | | |
| | 166.49 | Offer | | | 60.00 |
| | 13642.08 | Argraffu, plygu a chasglu | | | 16033.00 |
| | 3270.00 | Dylunio | | | 3740.00 |
| | 2860.00 | Teipio | | | 2540.00 |
| | 636.90 | Post | | | 930.58 |
| | 0.00 | Papur, amlenni ayyb | | | 41.39 |
| | 0.00 | Costau'r Wefan | | | 1798.20 |
| | 0.00 | Costau cyfarfodydd | | | 15.00 |
| | 20575.47 | | | | 25158.17 |
| | 2544.18 | Gweddill Masnachu | | | -2509.07 |
| | | **Cynllun Cyflogi'r Eco** | | | |
| | 5986.49 | Cyflog | 7311.97 | | |
| | 165.13 | Yswiriant Gwladol | 5.70 | | |
| | 496.56 | Yswiriant yr Eco | 496.54 | | |
| | 96.44 | Prynu disgiau ayyb | 0.00 | | |
| | 1000.00 | Rhentu Ystafell | 0.00 | 7814.21 | |
| | -6102.74 | Llai Ad-daliad - Cynllun Twf Swyddi Cymru | 3028.80 | | |
| | -24.90 | Incwm | 334.00 | 3362.80 | 4451.41 |
| | 1616.98 | | | | |
| | 927.20 | "Colled" am y flwyddyn | | | -6960.48 |

**Y sefyllfa ar 31 Mawrth 2015**

| 31 Mawrth 2014 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1556.10 | | Cyfrifon Banc | Cyfrif Cyfredol | 2407.59 | |
| 13041.68 | 14597.78 | | Cyfrif Cadw | 8297.65 | 10705.24 |
| | 106.00 | Arian parod | | | 578.25 |
| | 14703.78 | | | | 11283.49 |
| | 690.32 | Dyledion yr Eco | | | 1167.10 |
| | 14013.46 | | | | 10116.39 |
| | 8247.66 | Dyledion i'r Eco | | | 5184.25 |
| | 22261.12 | | | | 15300.64 |

## *Eryri Mynyddoedd a Môr 2016 cyfleodd marchnata*

Mae busnesau sy'n cynnig llety i dwristiaid fydd yn ymweld â Gwynedd yn 2016 yn cael eu hannog i hysbysebu ym mhrif declyn marchnata'r ardal – llyfryn Eryri Mynyddoedd a Môr.

Nod y llyfryn - sydd wedi ei gynhyrchu mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - ydi denu ymwelwyr am wyliau, gwyliau byr neu daith undydd i'r ardal.

Mae disgwyl y bydd o leiaf 100,000 o gopïau o'r llyfryn yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu i ymwelwyr drwy farchnata yma a thramor, mewn sioeau teithio a gwyliau

Roedd gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn gynharach eleni yn cynnig ystadegau calonogol iawn am effeithiolrwydd y llyfryn wrth ddenu cwsmeriaid i ymweld â'r ardal. Mae'r ffigyrau cyfartalog o'r holiaduron yn nodi fod 12% wedi dod i'r ardal ar Ymweliad Dydd, 32% ar gyfer Seibiant Byr a 21% ar Wyliau.

Dywedodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd:

"Dangosodd gwaith ymchwil diweddar fod 79% o ymwelwyr yn defnyddio llyfrynnau fel Eryri Mynyddoedd a Môr i ddarganfod gwybodaeth am gyrchfan, a phan maen nhw'n ymweld â'r ardal maent cyfrannu dros £40 miliwn tuag at yr economi leol.

"Gobeithio felly y bydd busnesau Gwynedd yn cymryd mantais ar y cyfle marchnata yma i hyrwyddo Eryri fel cyrchfan dwristaidd boblogaidd – mae'n gyfle gwych i fusnesau arddangos yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ganddynt i'w gynnig i ymwelwyr i'r ardal."

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn hysbysebion yw 23 Hydref 2015.

Am ragor o wybodaeth, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Steven Jones o Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd ar (01286) 679217 neu e-bostiwch: stevenvjones@gwynedd.gov.uk gan ysgrifennu Llyfryn Eryri 2016 yn y blwch testun.

## LLANRUG Eryl Roberts. Peris, 56 Glanffynnon. Ffôn: (01286) 675384

**Ysgol Gynradd**
Cafodd disgyblion blwyddyn 1 a 2 groeso gwresog gan y Parchedig Marcus Robinson pan aethant ar ymweliad â Chapel y Rhos yn ddiweddar. Bu'r ymweliad yn gyfle gwych i'r plant ddysgu am fedydd Cristnogol. Diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Robinson am ei gymorth a'i groeso.

Bu pawb yn yr ysgol yn canu eu gorau glas y mis yma. Ar gyfer yr ymgyrch genedlaethol 'Shw Mae Su Mae!', roedd pob dosbarth yn yr ysgol wedi cael cân pop Gymraeg i'w chanu yn null carioci. Ar 15fed Hydref rhaid oedd perfformio eu cân o flaen yr ysgol! Cafwyd llawer o hwyl ac roedd yr holl ddisgyblion wedi gwirioni pan ddaeth Elin Fflur draw i ffilmio'r digwyddiad fel eitem ar gyfer y rhaglen 'Heno'.

**Diolch** Dymuna Iris, 9 Hafan Elan, Llanrug a Gwyneth a Maldwyn, Bontnewydd, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn, sef Gwladys Jones, Deiniolen, gynt. Diolch am y rhoddion hael o £600 tuag at Gartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis, lle cafodd ofal arbennig gan yr holl staff yno. Diolch i'r Parchedig Olaf Davies am y gwasanaeth yn yr Amlosgfa ym Mangor ac yn olaf i Gwynfor Jones (E.W. Pritchard) am y trefniadau trylwyr, gofalus ac urddasol.

**Diolch** Dymuna Mary a Meurig Parry, Wenllys, ddiolch i'r teulu agos, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion yn ystod eu triniaethau yn Ysbyty Gwynedd a Clwyd. Bu hyn o gysur mawr ac yn amhrisiadwy. Diolch o galon.

**Llongyfarchiadau** mawr iawn i Gwernan Brookes o Lanrug ar fod yn un o enillwyr Cystadleuaeth yr Haf Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd eleni.

Daeth Gwernan i'r brig gyda chanmoliaeth uchel iawn am ei gwaith manwl o greu syniadau am Record Byd newydd a gwreiddiol. Da iawn hi!

**Plaid Cymru** Enillwyr Clwb Cant mis Hydref: 1. Gwenda Roberts, Hafle; 2. Geraint Jones, Cwm y Glo.

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Mary Parry, 4 Gwêl Fynydd a Maureen Pierce, Antmor, Bryn Moelyn, y ddwy wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi hefyd, Huw Jones, Ffordd Llanberis, yntau wedi derbyn llawdriniaeth – Brysiwch wella.

**Diolchiadau** Dymuna Margaret Williams, 51 Nant y Glyn, ddiolch o waelod calon i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu haelioni ar achlysur ei phen-blwydd yn 80. Yn arbennig dymuna ddiolch i'r plant am y penwythnos arbennig a gafwyd. Diolch yn fawr.

Hefyd fe ddymuna Berwyn, 34 Glanffynnon, Glenda a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd yn dilyn eu profedigaeth o golli Einir. Diolch hefyd i holl staff Meddygfa Llanberis ac yn arbennig i feddygon a staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r Parchedig Ronald Williams am ei wasanaeth a'i gefnogaeth ac i Dylan a Meinir Griffith am eu gwasanaeth ymgymerwyr arbennig.

Casglwyd £2,360 er cof am Einir, a bydd hwn yn mynd i Ward Alaw er budd y cleifion.

Fe ddymuna John a Megan Owen, 4 Nant y Glyn, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd pan yn dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

**Profedigaeth** Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Fedi 28ain bu farw Gwilym Williams, Bron Eifion, yn 92 mlwydd oed. Roedd wedi ymladd am gyfnod hir gyda anhwylder y frest ond wedi cael byw gartref ,yn ôl ei ddymuniad, gyda chymorth llawer o ffrindiau.

Bu yn aelod ffyddlon yng Nghapel y Rhos a dyna lle y cynhaliwyd ei wasanaeth olaf dan ofal y Parch Marcus Robinson.

Mi fydd colled fawr i'w ffrindiau a'i ofalwyr, colled yn 'taro fewn' i gael sgwrs a hanes yr ardal a'i phobl.

Gwyddwn fod meddygon a staff Meddygfa Waunfawr wedi bod yn garedig iawn a gofalus ohono ac fe roedd mor ddiolchgar am hynny.

**Cydymdeimlad** Bu farw Mrs Elsbeth Griffith, Llys, Brynrefail, mam annwyl Dylan a Meinir Griffith. Derbyniwch ein cydymdeimlad diffuant yn eich profedigaeth o golli un annwyl i chi i gyd fel teulu.

**Ffair Nadolig / Crefftau / Ffrindiau Ysgol Brynrefail** Cynhelir y ffair ar Dachwedd 19 o 6.00 – 8.30 yn Ysgol Brynrefail. Cost mynediad fydd £2 ar y noson. Croeso cynnes i bawb a phlant dros 11 oed er mwyn hwyluso profiad siopa i'r rhieni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Donna Roberts-Jones 07966805229 neu robertsjones.donna@yahoo.co.uk

**Gwellhad Buan** Anfonwn ein cofion gorau gan ddymuno gwellhad buan i Gareth Roberts, Gregynog, wedi ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Roedd Gwennie Morris, Cadfan, yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed tra roedd yn yr Ysbyty yn cael pen-glin newydd. Dymuniadau gorau ar y ddau achlysur.

**Genedigaeth** Ganwyd Elis Ifan i Sion Arfon ag Eleri Stokes, Pen Lôn. Brawd bach annwyl iawn i Ilan.

**Swper Diolchgarwch** Cynhaliwyd Swper Diolchgarwch yr Eglwys ddiwedd mis Medi. Mwynhawyd cawl a chacen afal gyda sgwrs ddiddorol iawn gan Gareth Roberts a Dafydd Whiteside Thomas. Gwnaed elw o £187 ar y noson.

**Llongyfarchiadau** i Wendy a Myfyr Parry, Rhiwena, Nant y Glyn, ar ddod yn daid a nain i Nel Siriol, merch fach i Cerys a Dewi, Waunfawr, a chwaer fach i Ena a Nan.

**Capel Y Rhos** Ar 4ydd o Hydref bedyddiwyd Tomos Sion Ross, mab bach David Ross a Hannah Thomas o Gaernarfon. Gweinyddwyd gan y gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson. Pob bendith i'r teulu bach.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch a drefnwyd gan athrawon yr Ysgol Sul. Braf oedd gweld dros hanner cant o blant yn cymryd rhan ac yn cyflwyno eu gwaith yn raenus. Derbyniwyd y nwyddau fel arfer ar gyfer Banc Bwyd Caernarfon. Gwnaed casgliad o bron i £300 ac eleni byddwn yn cyflwyno'r arian i Gronfa'r Ffoaduriaid. Diolch i bawb gefnogodd yr ymgyrch.

Dydd Llun, Hydref 19eg cynhaliwyd angladd Mr Orwig Lewis o'r Bontnewydd ond yn enedigol o Lanrug. Roedd yn fab i'r diweddar Harry a Maggie Lewis, Madryn House. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i wraig, Gwenda, y plant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Gwasanaeth Sul y Cofio**
Cynhelir y gwasanaeth am 9.00 o'r gloch fore Sul, 8fed o Dachwedd yn Y Sefydliad Coffa.

Croeso cynnes i bawb.

**Oedfaon Tachwedd**

| | |
|---|---|
| 1: | Cyfarfod yng ngofal yr aelodau |
| 8: | Mr Huw Fôn Roberts, Brynrefail |
| 15: | Y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson |
| 22: | Parch Dafydd R. Roberts |
| 29: | Canon Idris Thomas |

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

*Parhad* LLANRUG

# Merched y Wawr

Estynnwyd croeso cynnes i bawb a ddaeth i gyfarfod cangen Llanrug ar nos Fawrth Hydref 13eg gan y Llywydd, Menna. Cydymdeimlwyd ag Iris ar golli ei mam ac ag Eryl ar golli ei chwaer yng nghyfraith. Anfonwyd cofion at Mary Parry a fu'n derbyn triniaeth a 'roedd yn dda deall fod gŵr Sheila yn gwella yn dilyn triniaeth. Mae'r Cynllun Darllen wedi cychwyn ac mae nifer o aelodau yn mynd i'r Ysgol Gynradd ar ddydd Llun a dydd Iau.

Yna cyhoeddwyd y canlynol: y Cwis Hwyl Cenedlaethol sydd i'w gynnal ar nos Wener, 13eg Tachwedd; y ffaith fod y Mudiad yn genedlaethol eisoes wedi codi £20 mil tuag at Sefydliad y Galon drwy werthu'r ategolion a gasglwyd gan yr aelodau ac mae'r casgliad i barhau am flwyddyn arall; yr angen am aelodau i wirfoddoli i siarad â'r Dysgwyr yn yr Ysgol Undydd i Ddysgwyr ar brynhawn Sadwrn, 14eg Tachwedd, o 1.30 hyd at 3.30; cynhelir Cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar 8ed Rhagfyr; bydd aelodau'r gangen yn cynnal caffi yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar 27ain Chwefror 2016 a'r pryder ynglŷn â'r ddarpariaeth o wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Gwynedd yn arbennig felly yn yr hir dymor.

Y wraig wadd oedd Gwen Aaron sy'n enedigol o Aberystwyth ond sydd yn byw bellach ers blynyddoedd yn Rhiwlas. Bu Gwen yn athrawes Gwyddoniaeth yn Aberystwyth, Caerdydd a Bangor ac mae ganddi ddiddordebau eang megis nofio'n ddyddiol am 6 o'r gloch y bore, teithio i bob cwr o'r byd, cerdded, sgïo, gwaith gwirfoddol gyda'r mudiad Cruse ac mae'n aelod brwdfrydig o Gôr Porth yr Aur. Beth amser yn ôl bu hi a'i chyfaill, Dr Gwen Richards, yn ymlwybro ar hyd Llwybr Arfordir Ceredigion a olygai gerdded o lannau'r Teifi i lannau'r Ddyfi sydd yn daith o 60 milltir a hynny o fewn 6 diwrnod. Daeth â sleidiau o'r gwahanol fannau diddorol oedd i'w gweld ar y daith a bu Gwyndaf, gŵr Mair, yn garedig iawn yn trin y gliniadur a'r taflunydd. Dangosodd Gwen nifer o fannau nodedig megis Ynys Aberteifi, cerflun o lamhidydd yn Aberporth a gair sydyn am sefydliad y Weinyddiaeth Amddiffyn, Tresaith - pentref a ddefnyddiodd yr awdures Allen Raine fel lleoliad i'w nofelau, Eglwys Penbryn, Traeth Bach a Craig y Tŷ, pentref a thraeth Llangrannog oedd yn atgoffa rhai aelodau o'r gwyliau a gawsant yng Ngwersyll yr Urdd pan oeddent yn blant, fferm y Cilie, cerdd o waith Dic Jones wedi ei rhoi ar graig, Cwm Tydu, Cei Newydd, Aberaeron gyda'r adeiladau amryliw ac yn dwyn i gof rhai o'r prydau gwych sydd yn arlwy yng Ngwesty'r Harbwrfeistr, pentref Llanon, odynau calch gyda'r calch yn yr oes a fu yn cael ei fewnforio ar gwch o Sir Benfro, tref Aberystwyth, y Borth a Chors Fochno, y Ddyfi a bryniau Meirionnydd ac yna terfyn y daith yn Aberdyfi.

Roedd edrych ar y lluniau hyn, ac yn wir mae gan Gwen sgiliau da iawn wrth drin y camera, a gwrando ar sgwrs ddifyr ar yr un pryd yn ei gwneud yn noson gwerth chweil. Diolchwyd yn fawr i Gwen gan Menna.

Bu Bethanne, Gwenda ac Eirianwen yn gyfrifol am wneud y baned ac enillwyd y wobr raffl gan Gwenda.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 10ed Tachwedd a thestun Carol Llewelyn fydd "Welsh Lady Preserves"

# Cist Gymunedol yn cefnogi chwaraeon yng Ngwynedd

Mae Cist Gymunedol Gwynedd wedi dyrannu cyfanswm o £20,511 i 19 clwb neu sefydliad chwaraeon yng Ngwynedd yn ystod eu cyfarfod diweddar.

Mae grantiau Cist Gymunedol Gwynedd yn rhoi cymorth i glybiau a sefydliadau amrywiol sydd yn ymwneud â chwaraeon ledled y sir, megis clybiau pêl-droed, rygbi, gymnasteg, rhedeg, pêl-rwyd, pysgota a llawer mwy.

Dywedodd y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Gwynedd Iach ar Gyngor Gwynedd:

"Pwrpas Cist Gymunedol Gwynedd ydi cefnogi a hyrwyddo amrywiaeth o chwaraeon ym mhob rhan o'r sir gan blethu gyda nod Gwynedd Iach y Cyngor o hyrwyddo ffitrwydd. Fel Cyngor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd a'r angen am glybiau a sefydliadau chwaraeon yn ein cymunedau, ac mae'n bwysig ein bod yn rhoi gymaint o gymorth a gallwn iddyn nhw i lwyddo. Mae'n hynod galonogol fod grantiau'r Gist Gymunedol yn parhau i fod o gymorth i nifer helaeth o glybiau a sefydliadau chwaraeon yng Ngwynedd.

"Byddwn yn annog unrhyw glwb neu sefydliad chwaraeon yn y sir sy'n credu eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan Gist Gymunedol Gwynedd i gyflwyno cais cyn gynted â phosib. Gall grant o'r fath hon sicrhau parhad a datblygiad eich clwb neu sefydliadau yn y cyfnod ariannol heriol hwn sydd ohoni."

Yng nghyfarfod Cist Gymunedol Gwynedd mwyaf diweddar, dyrannwyd grantiau i'r clybiau a sefydliadau chwaraeon canlynol:

- Academi clwb pêl-droed Tref Caernarfon
- Clwb pêl-droed Tref Caernarfon Caernarfon yn y Gymuned
- Gild pysgota â phlu 'Cambrian Fly Dressers' – Meirionnydd / Penrhyndeudraeth
- CPD Mynydd Tigers – Bethesda
- Clwb Rygbi Harlech
- CPD Dyffryn Nantlle
- Academi CPD Porthmadog
- CPDI Cae Glyn United – Caernarfon
- Clwb Tennis Criccieth
- Cymdeithas Enweiriol Afon Dwyfor – Amryw o leoliadau ar hyd afon Dwyfor
- Grwp Ysgol Farchogaeth Arbennig Meirionnydd – Fairbourne
- Parafit Hoplites – Bangor
- Maes y Bryn FC – Maesgeirchen
- Clwb Pêl Droed Ieuenctid Porthmadog

Yn ychwanegol i'r grantiau hyn, derbyniodd clwb Gymnasteg Cader Idris yn ardal Dolgellau arian i archebu offer newydd er mwyn ehangu eu sesiynau a chynnig mwy o gyfleoedd i ymuno â'r clwb yn ogystal ac arian i gymhwyso hyfforddwyr er mwyn rhedeg sesiynau newydd mewn disgyblaeth gwahanol.

Yn ystod y cyfarfod ariannwyd cynllun gan grwpiau Pêl-rwyd Blaenau Ffestiniog a 'Thundercats Netball' sydd yn y broses o sefydlu clybiau pêl-rwyd newydd yn ardal Blaenau a Bangor. Bydd y clybiau newydd yn darparu ar gyfer genethod a merched lleol sydd eisiau cymryd rhan i gadw'n heini mewn ffordd hwylus yn ogystal â chael y cyfle i gystadlu yng nghynghreiriau Penygroes a'r Cylch. Sefydlwyd tîm newydd o fewn Clwb Pêl-droed Talysarn Celts hefyd er mwyn darparu ar gyfer mwy o blant o fewn y pentref.

Am fwy o wybodaeth am sut gall eich clwb neu sefydliad chwaraeon chi wneud cais am gefnogaeth ariannol gan Gist Gymunedol Gwynedd, cysylltwch â thîm datblygu chwaraeon Cyngor Gwynedd drwy e-bostio DatblyguChwaraeon@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01766 771000.

# Alun 'S' (Allen Searell Jones)

Mae llawer o bobl, mae'n siŵr, wedi clywed am Robin Jac Edwards oedd, yn ystod y 1930au, yn cael ei ystyried fel un o raswyr moto beics gorau'r wlad. Roedd y dewin ar ddwy olwyn o Lanuwchllyn yn gystadleuwr cyson mewn rasys fel y T.T. Ynys Manaw. Ond tybed faint sy'n ymwybodol fod gan bentref Waunfawr hwythau eu harwr oedd wedi cystadlu yn y T.T. rai blynyddoedd ynghynt. Bu i Allen Searell Jones, neu Alun 'S' i drigolion y Waun, gystadlu yn rasys Ynys Manaw yn ystod 1912/13. Brodor o Sygun Fawr, Beddgelert, oedd Alun 'S' (neu Alun bach Beddgelert) cyn symud i dyddyn Cefn y Waun Uchaf, Waunfawr, yn ystod blynyddoedd cynnar y ganrif ddiwethaf. Roedd ei ddiddordeb mewn moto beics yn amlwg o'r cychwyn i drigolion y pentref, gan fod y libart a'r cae bychan yng nghefn y tyddyn bob amser yn llawn fframiau, olwynion a darnau injan moto beics o bob math. At Alun 'S' y byddai'r rhan fwyaf o foto beicwyr yr ardal, chwarelwyr a gweision ffermydd ran amlaf, yn mynd i gael ambell 'sbêr part' a thrwsio eu peiriannau. Mae'r tro yn y lôn heibio Cefn-y-Waun Uchaf yn dal i gael ei alw fel tro Alun 'S' hyd heddiw.

Yn 1911 ac yntau yn 25 oed, dechreuodd Alun 'S' fusnes gwerthu a thrwsio moto beics yn ardal Penllyn Caernarfon, gyda'r llythrennau 'A.S.J. for A.J.S.' wedi eu printio ar ei gardiau busnes. Bu'n delio gyda llawer o feiciau y cyfnod fel Rudge, Clyno, Rex, Minirva, Fleet, ac wrth gwrs A.J.S. i enwi ond rhai. Y flwyddyn ganlynol yn 1912 penderfynodd roi cynnig ar gystadlu yn rasys y T.T. Ynys Manaw. Nid menter ddwy a dime oedd hon o bell ffordd. Gan nad oedd ganddo noddwr o fath i'w gefnogi rhaid oedd talu am bopeth o'i boced ei hun. Yn gyntaf oll roedd y gost o gystadlu yn dod i £20, oedd yn swm aruthrol yn 1912. Yna y gost o'i gludo ef a'i beiriant yn ôl a blaen o'r Ynys ac ar ben hyn i gyd dalu am wely a brecwast mewn llety. Ef oedd yr unig Gymro i gystadlu yr adeg honno.

Gan nad oedd 'pits' ar gael yn nhref Douglas i drin a llenwi'r tanciau petrol y dyddiau hynny, rhaid oedd gwneud ei drefniadau yn nhref Ramsey. Ar gyfartaledd, yn wahanol iawn i heddiw, dim ond ychydig dros 48 milltir yr awr oedd cyflymder mwyaf y beiciau yr adeg honno. Ni wisgai helmed o gwbl yn y ras, dim ond cap lledr du yn dyn dros ei ben a'i glustiau ac wedi ei glymu o dan ei ên. Roedd y 'Senior Event', sef yr un yr oedd ef yn cymryd rhan ynddi, yn cael ei chynnal dros ddau ddiwrnod. Ar y diwrnod cyntaf gwnaeth yn eithriadol o dda ond ar yr ail daeth anlwc i'w ran. Yn anffodus, chwythodd 'silindr hed' yr injan ac, i'w siomedigaeth, chwalwyd yn llwyr ei obeithion o gwblhau'r cwrs. Roedd hon yn ergyd drom i'r gwron o'r Waunfawr, ond yn ddiarwybod iddo roedd ei berfformiad a'i ddawn reidio wedi creu argraff fawr ar un o gwmniau gwneuthurwyr beiciau modur o Loegr ac yn y flwyddyn ganlynol 1913, a chyflymder y beiciau wedi codi i 50 milltir yr awr, cefnogwyd a noddwyd ef gan y cwmni.

Dyna'r tro diwethaf i Alun 'S' gystadlu yn y T.T. Ar doriad Rhyfel 1914-18 aeth i'r fyddin ac anfonwyd ef i Ffrainc lle bu'n gwasanaethu fel negeseuwr beic modur (despatch rider). Ar ôl y rhyfel cystadlodd mewn nifer o rasys yng ngogledd Cymru a thu hwnt ac ystyriwyd ef yr adeg honno fel un o raswyr noto beics gorau'r gogledd. Bu'n fuddugoliaethus mewn sawl cystadleuaeth, a thros y blynyddoedd enillodd bymtheg cwpan arian ynghyd â llu o fedalau o bob math, tair o'r medalau yma yn aur. Yn 1923 enillodd darian yr 'A.C.U. Premiership' am ei berfformiadau. Roedd hefyd yn aelod o'r 'Pioneer Motor Cyclist Club' a grewyd yn 1928. Dim ond perchnogion a reidwyr beiciau modur ynghynt na Rhagfyr 1904 oedd yn cael aelodaeth o'r clwb arbennig yma. Yn ystod y cyfnod yma byddai rasys ar draethau glan y môr, fel Dinas Dinlle a Morfa Bychan, yn hynod boblogaidd, ac yn amlach na pheidio Alun 'S' fyddai'n rhagori ac yn sgubo'r llawr (neu'r tywod) gyda'i wrthwynebwyr.

Alun 'S' oedd y reidiwr lleol cyntaf i gystadlu ar y 'Wall of Death' ym mhafiliwn Caernarfon. Roedd yr walgylch beryglus yma yn 32 troedfedd o ddiamedr wedi ei gosod ar lawr rhew hynod lithrig. Pymtheg gwaith o amgylch y wal yn yr amser byrraf oedd y gamp, ac Alun 'S' yn ei ras gyntaf oedd y buddugwr o chwe eiliad yn erbyn gŵr o Coventry. Bu'n llwyddiannus sawl tro wedyn ar ôl hynny. Dau arall o'r Waunfawr fyddai'n cymryd rhan yn y weithred beryglus yma oedd Robert John Williams (Non) a Griffith T. Jones (Guto bach), mecanic fyddai'n helpu Alun 'S' drin ei beiriannau. Bu Guto bach hefyd yn cymryd rhan ac yn rhagori mewn nifer o rasys traethau Dinas Dinlle a Morfa Bychan.

Yn ystod y pumdegau, galwai Alun 'S' yn rheolaidd yn siop fy nhad yn y Waun. Cap lledr tebyg i'r un a wisgai yn y rasys T.T. oedd ar ei ben yr adeg honno hefyd, gyda sbectol reidio (gogls) yn dyn ar ei dalcen. Gyda moto beic a seidcar y deuai bob amser, gan mae'n debyg fod y seidcar y hwylus i gario'i neges i fyny'r allt heibio'r ysgol at y tyddyn. Ef, yn ôl rhai, oedd y cyntaf erioed i gyrraedd copa'r Wyddfa ar gefn moto beic, er tybed fod hyn yn gywir. Mae'n wybyddus i ddau ddyn o Loegr, sef L.W. Spencer o Reading a Gilbert Brooking o Gaerloyw gyflawni'r dasg yma ym mis Gorffennaf 1912. Ai hwy tybed oedd y rhai cyntaf? Cymerodd yr ymdrech yma a gychwynnodd am wyth o'r gloch y bore o bentref Llanberis saith awr i'w chyflawni. Hefyd, ddeng mlynedd yn gynharach, yn 1902, llwyddodd criw o filwyr o wersyll Parc Kinmel i gyrraedd y copa mewn Land Rover 11 horse power.

Ond i drigolion y Waun bob amser, Alun 'S' neu Allen Searell Jones, Cefn y Waun Uchaf, Waunfawr, seren T.T. Ynys Manaw 1912/13 oedd y cyntaf ar gefn moto beic i gyrraedd copa mynydd uchaf Cymru. Dyna beth a gredaf innau hefyd.

Gwilym Morris Jones, Bontnewydd







ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a Gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun
Nos Fawrth 6ed o Hydref 2015
Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Sion Jones, Geraint Hughes, Carolyn Roberts, Elfed Williams, Geraint Elis a R. Hefin Williams.
Gweddi. Offrymwyd gair o weddi.
1. Ymddiheuriadau. Rachel Williams, Richard Ll. Jones, Rhian Evans a Idris Thomas
2. Datgan buddiant. Gan fod Ceisiadau am Gymorth Ariannol ar y rhaglen, roedd PAWB yn bresennol yn datgan buddiant, ond yn gwneud hynny gyda meddwl agored wrth drafod ceisiadau.
3. Cofnodion cyfarfod Medi 1af 2015.
Nododd Sion Jones nad oedd yn glir yn y cofnodion diwethaf ei fod wedi rhoi cais ymlaen am 2 gysgodfan bws.
Fel arall, derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
4. Materion o'r cofnodion
Archwiliad Cyfrifon – Dywedodd y clerc fod yr archwiliad allanol bellach wedi dod i ben.
Materion Ffyrdd
Brynrefail – Nodwyd fod lôn Brynrefail bellach wedi ei ail hwynebu, a bod llawer yn canmol y gwaith da sydd wedi ei wneud ar ôl hir ddisgwyl.
Serch hynny, mae gwasanaeth cwmni bysus yn dal i fynd ddwy ffordd trwy y pentref, sydd yn achosi problemau mawr. Y clerc i ysgrifennu yn gofyn a yw yn bosib rhoi pwysau ar y cwmni i ddod un ffordd yn unig drwy'r pentre.
Lôn Cwt Band i Racca – Derbyniwyd llythyr gan adran briffyrdd mewn ateb i lythyr mis diwethaf yn esbonio fod angen contractwr arbenigol i osod llinell wen ochor y ffordd, ac nad yw'r contractwr yn ymweld â'r ardal yn aml. Mae'n rhaid blaenoriaethu ffyrdd categori 1 yn gyntaf, ond mae addewid fod y ffordd hon yn un o'r rhai cyntaf i dderbyn sylw pe bai'r amser a'r adnoddau gan y contractwr i ymgymryd â gwaith ychwanegol tra yn gweithio ar y priffyrdd.
CCG – Derbyniwyd ateb gan CCG yn gwerthfawrogi ein awgrym i roi hysbysebion tai gwag yn ein papurau lleol.
Cynllunio – derbyniwyd llythyr yn ôl gan adran gynllunio yn ateb ein cwestiynau ynglŷn â'r drefn a'r broses sydd yn cymeryd rhan pan mae Cyngor Cymuned yn rhoi sylwebaeth ar gynllunio. Derbyniwyd hefyd gynllun statudol dirprwyo cynllunio Gwynedd. Yn dilyn hyn, penderfynwyd ateb pob cais o hyn ymlaen – yn ôl dymuniad y Cyngor Cymuned, a bod hynny yn sylwebaeth unfrydol o'r Cyngor.
Seindorf Arian Deiniolen – Dywedodd y Cynghorydd Elfed Williams fod Seindorf Arian Deiniolen, wedi dod yn 3ydd yng nghystadleuaeth Bandiau Pres Prydain yn Cheltenham yn ddiweddar. Llongyfarchiadau Mawr iddynt ar eu llwyddiant, ac am ddod â chlod i'r ardal unwaith eto.
5. Gohebiaeth a materion eraill.
Her Gwynedd – Derbyniwyd ebost yn tynnu ein sylw eto at doriadau Gwynedd, ac at y ffordd y byddant yn effeithio y gwasanaeth Hawliau Tramwy. Dywedwyd ei bod yn bwysig ein bod yn annog pobl i fynd i roi eu barn, er mai torri fydd rhaid, mae'r cyfarfodydd sydd wedi eu trefnu yn dangos ac yn esbonio y sefyllfa a'r toriadau yn gliriach.
Awdit Cymru – Derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu o'r archwilwyr allanol newydd am y tair blynedd nesaf.
Cofebion Rhyfel – Derbyniwyd manylion o brosiect o'r enw "historypoints" sydd yn rhoi codau QR ar blaciau neu sticeri bychain wrth ymyl llefydd diddorol ledled Cymru, lle bydd unrhyw berson gyda ffôn glyfar neu dabled yn gallu sganio er mwyn lawr lwytho hanes o'u gwefan, ac yn tynnu ein sylw i allu gwneud hyn ar gyfer cofebau rhyfel. Buasai hyn yn lawr lwytho dipyn o hanes y bechgyn ifanc a laddwyd a'u henwau sydd i'w weld ar y cofebau. Megis eu henwau a'u hoedran, cyfeiriad ar y pryd ayyb. Gofynnwyd i gynghorwyr pentrefi dynnu llun y cofebau, er mwyn i ni yrru ymlaen i historypoints i gael y gost o wneud y cyfan cyn penderfynu.
Llyfrgell – Daeth dogfen o gofnodion o'r gweithdy ymgynghoriad i law. Mae'r ymgynghoriad bellach wedi dod i ben, ac mae'r adroddiad terfynol i'w weld ar wefan Cyngor Gwynedd. Mae'n ymddangos fod yna gofnodi faint o ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r llyfrgell yn Neiniolen o hyd. Er fod neges wedi dod o gyfarfod llywodraethwyr yr ysgol yn Neiniolen nôl ym mis Gorffennaf fod yr ysgol am wneud defnydd o'r llyfrgell drwy fynd â phlant i ddefnyddio'r llyfrgell yn ystod oriau ysgol y tymor yma, mae'n ymddangos nad oes dim un ymweliad wedi bod o'r ysgol y tymor hwn. Penderfynwyd cysylltu â'r pennaeth trwy lythyr yn gofyn beth yw eu bwriad ynglŷn â gwneud defnydd a chysylltiad â'r llyfrgell.
Grid Cenedlaethol – Derbyniwyd lythyr yn ein gwahodd i gyfarfod briffio a chyfle i weld y cynllun diweddara.
6. Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd:
Bod Ivy, Tre'r Gof Bethel – Codi estyniad un llawr yn lle'r lolfa haul bresennol
Tŷ Elin, Penisarwaun – Apêl o dan adran 78i
Ael y Garth Felinheli – Codi lefel to ynghyd â chodi estyniadau a gwneud newidiadau.
Rhiwen, Deiniolen – Codi estyniad llawr cyntaf ar ochor yr adeilad.
7. Gwefan
Yn dilyn trafodaeth ar ddrafft strwythr Gwefan Cyngor Cymuned, bydd y clerc yn cysylltu nawr gyda Delwedd am ein anghenion ar y wefan.
Ceisiadau am Gymorth Ariannol
Dywedwyd fod rhaid cofio mai gwasanaeth i'r gymuned ydi dyletswyddau y Cyngor.
Rhaid tynnu sylw taw, yn y gorffennol, fod canran uchel o praesept yn cael ei rannu i gymdeithasau o fewn y gymuned.
Nodwyd ein bod wedi colli grantiau Cyngor Sir ac ein bod o bosib gyda'r praesept isaf yng Nghymru.
Nid yw'n arferiad gan y cyngor i roi cyfraniad i Fudiadau Cenedlaethol.
Bydd trafodaeth pellach ar faint o arian fydd yn cael ei glustnodi i roddion yn rhaglen mis Rhagfyr, pan drafodir cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
Daeth 22 cais i law a thrafodwyd pob cais yn unigol.
Penderfynwyd:
1. Merched y Wawr Deiniolen – Mudiad Cenedlaethol. Awgrymu y gallent gael cymorth trwy loteri cenedlaethol "Arian i Bawb"
2. Gŵyl Bethel – Penderfynwyd mai pwrpas Gŵyl o'r fath yw codi arian i gyfrannu rhoddion at gymdeithasau y pentref?
3. Clwb Ffermwyr Ifanc - Efallai y buasai'r cyngor yn gallu ystyried eu cais yn dilyn derbyn Mantolen Ariannol Gyfredol.
4. Cymdeithas Amaethyddol Gogledd Cymru – Nid yw'r sioe yn disgyn o fewn ardal plwyfi Llanddeiniolen.
5. Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni – Mae'r Cyngor Gymuned wedi ac yn barod i gyfrannu pan mae'r eisteddfod yn dod i'r ardal yma.
Penderfynwyd ar gyfraniadau fel a ganlyn:
Ysgol Feithrin, Deiniolen 150
Seindorf Arian Deiniolen 400
Clwb Snwcer Deiniolen 200
Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen 300
Eisteddfod Bentref Penisarwaun 300
Pwyllgor Neuadd Penisarwaun 300
Clwb Pensiynwyr Penisarwaun 150
Neuadd Goffa Bethel 300
Clwb Pêl-droed Ieuenctid Bethel 200
Eisteddfod Bentref Bethel 300
Llais Ogwan 100
Eco'r Wyddfa 400
Clwb Rhiwen, Rhiwlas 150
Cymdeithas Lenyddol Bethel 150
Neuadd Bentref Rhiwlas 300
Clwb Bro Bethel 150
Cylch Ti a Fi Penisarwaun 150
O Gwmpas y Bwrdd:
Rhiwlas – Mae Neuadd Rhiwlas yn erfyn yn daer ar i rywun eu helpu. Mae y to tu mewn yn uchel iawn, ac mae angen sylw i'r goleuadau. Mae scaffold yn gostus dros ben. A oes rhywun yn yr ardal yn gallu rhoi menthyg scaffold oddeutu 15 troedfedd o uchder os gwelwch yn dda?
Bethel – Lôn Tan y Buarth ar y stad wedi cael gosod cerrig ar ei hwyneb, ond wedi gosod cerrig mawr yn hytrach na chippins. Llythyr i Wynedd.
Penisarwaun – Mae tai cymunedol wedi mynd trwy gyfnod o gael eu hatgyweirio, ac nid yw'r tenantiaid byth wedi cael symud yn ôl i'r tai. A oes esboniad i gael gan CCG am yr oedi?


FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU AMCANGYFRIF AM DDIM
Sion Roberts 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

15fed o Fedi 2015.

Cyflwyniad Mr Peter Simpson o Gyngor Gwynedd

Croesawyd Mr Peter Simpson o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod. Eglurodd ei rôl a'i fod yn bennaeth yr adain sydd a chyfrifoldeb am waith strydoedd, sydd yn cynnwys gofalu am finiau ysbwriel cyffredinol, ynghyd â biniau baw cŵn.

Adroddodd ar draws Gwynedd, fod gostyngiad o 20% mewn achosion o faw ci ac oddi fewn i ardal Llanrug, fod rhai personau wedi cael dirwy. Ymhelaethodd ymhellach, ei bod yn anodd iawn dal y tramgwyddwyr oherwydd y nifer o swyddogion sydd gan Gyngor Gwynedd. Eglurodd fod nifer o arwyddion wedi eu rhoi fyny ar hyd a lled y pentref yn atgoffa cerddwyr cŵn i godi eu baw ci a'i roi yn y bin. Gellir ei roi naill ai yn y bin ysbwriel cyffredin, neu yn y biniau baw ci pwrpasol.

Adroddodd Mr Peter Simpson am gynllun a fabwysiadwyd gan Gyngor Cymuned Llanengan. Mae'r Cyngor wedi pwrcasu biniau i'w gosod o amgylch y gymuned ac yna talu i Gyngor Gwynedd am eu gwagio.

Mynegwyd pryder wrth Mr Peter Simpson am y diffyg gwagio biniau ar gae chwarae Nant y Glyn a dywedodd i ffonio Galw Gwynedd os bydd problem.

Materion Cynllunio

Doedd dim gwrthwynebiad i gais i dynnu amodau 5, 6 a 7 sy'n ymwneud â'r Cod Cartrefi Cynaliadwy - Plot 2, Hen safle Garej Hafod, Llanrug.

Cae Chwarae Cwm y Glo

Adroddwyd fod y cae chwarae mewn cyflwr derbyniol ac nad oedd dim i'w adrodd am ei gyflwr

Cae Chwarae Pwll Moelyn, Llanrug

Mynegwyd siom eto nad oedd y gwaith a addawyd gan y Gymdeithas Tai wedi cychwyn a phenderfynwyd i gysylltu eto â'r Gymdeithas Tai i holi pam.

Cae Chwarae Nant y Glyn

Adroddwyd bod offer chwarae ychwanegol wedi'u gosod ar gae Nant y Glyn a bod mwy o blant yn eu defnyddio.

Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod y gwaith o glirio'r coed ar hyd Llwybr o Ogwen i Ffordd Glanffynnon wedi ei gwblhau a bod y canlyniad yn llwyddiannus dros ben.

Adroddiad Pentrefi – Cwm y Glo

Adroddwyd fod y ffordd drwy'r pentref yn mynd yn waeth. Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o hyn. Penderfynwyd i gysylltu eto â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt edrych ar y ffordd a'i thrwsio.

Adroddiad Pentrefi – Llanrug

Adroddwyd fod nifer o gwynion wedi dod i law am y defnydd presennol o'r siop wrth fynedfa Ysgol Brynrefail. Penderfynwyd i gysylltu ac Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd i ddwyn hyn i'w sylw.

Adroddwyd fod wal ger Capel Mawr at gyfeiriad Ysgol Brynrefail yn bochio allan i'r ffordd. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i adrodd am hyn

Glanhau Pentrefi – Llanrug

Adroddwyd fod criw o wirfoddolwyr yn parhau i fynd o amgylch y pentref a bod eu heffaith i'w weld ar hyd y pentref.

Y Fynwent

Penderfynwyd trefnu i is-bwyllgor gyfarfod i edrych ar y ffioedd.

# Dweud eich dweud ynglŷn â'r Wyddfa

*Yn dilyn cyfarfodydd ymgynghori, anfonwyd ymateb llawn i'r "Eco" gan un sy'n ffermio llethrau'r mynydd: Dafydd Morris. Oherwydd amseriad y cyfarfodydd, cyrhaeddodd yr ymateb yn hwyr, a bu'n rhaid ei gwtogi er mwyn cyflwyno'r prif sylwadau i'r darllenwyr. (Golygydd).*

Mae'r cyfrif o bobl a chŵn sy'n dod ar yr Wyddfa'n ddyddiol yn wallgofrwydd llwyr ar ran y rhai sy'n honni eu bod yn warchodwyr. Gwarchod pwy a beth?

Mae i'r Wyddfa linell derfyn bendant, a rhaid dangos y terfyn yn gywir ar fap. Er enghraifft, mewn ymchwiliad ac asesiad o'r llanast difrifol a'r gorbwysau a roddir gan ymwelwyr, mae'r cyfrif yn llawer mwy derbyniol o ddweud mai 200 mil o erwau yw'r Wyddfa. Mewn gwirionedd, 100 mil o erwau'n unig ydyw. Mae camarwain o'r fath yn gyfrwng i waethygu'r sefyllfa.

Gan fod nifer afresymol o bobl yn achosi erydu'r llwybrau a'r tirwedd, nid palmantu'r llwybrau efo cerrig yw'r ateb – mae traed blinedig yn dewis cerdded ar dir, nid ar gerrig. Felly mae'r erydiad yn lledu yn lle cael ei gyfyngu.

Ni fyddai'n syndod gwybod fod mwy o gŵn yn dod i'r Wyddfa bellach. Maent yn aflonyddu ar wartheg a defaid, ac ar brydiau yn erlid a lladd defaid ac ŵyn. Mae baw cŵn yn afiach ac yn peryglu iechyd. Dylid atal cŵn rhag dod i'r mynydd.

Rhaid gwarchod perchennog y tir a'i fywoliaeth. Y perchennog ddylai gael yr hawl i benderfynu sut y dylai ei dir gael ei drin. Mae defnyddio'r gair 'parc' yn cyflyru ymwelwyr i feddwl mai cae chwarae yw ein heiddo.

Dylid rhoi arwydd eglur ger pob mynedfa i'r mynydd i nodi pwy yw perchennog y tir.

Un dewis fyddai ffensio o ddeutu'r llwybr.

Mae angen gweithredu yn awr. Mae bywoliaeth y ffermwyr yn y fantol, ac mae'n amlwg mai ymwelwyr yw blaenoriaeth y Cynulliad. Cymru yw'r unig wlad o fewn yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi amddifadu ffermwyr o'r taliad tir mynydd.

Dwyn yr Wyddfa drachefn.

O Gymru fach fy annwyl wlad
a wyddost ti fod cynllun brad
ar droed, er ceisio dwyn drachefn
ein haberth oes; drwy ddrws y cefn.

POSH PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol
PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB–4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon
Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

KEVIN DAVIES
Plastrwr Profiadol
Pob math o waith cynnal a chadw - mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim
Ffôn: 01286 650655
Ffôn symudol: 07918733510
e-bost: kevindavies6287@gmail.com

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

## *Prynwch deganau diogel y Nadolig hwn*

Gyda'r nosweithiau yn mynd yn hirach a'r tywydd yn oeri, mae pobl yn dechrau meddwl am brynu anrhegion Nadolig er mwyn ceisio lledaenu'r gost. Ond mae Gwasanaethau Safonau Masnach Gogledd Cymru yn annog y cyhoedd i wneud yn siŵr eich bod yn prynu gan fusnesau ag enw da.

Bob blwyddyn mae Safonau Masnach yn derbyn cwynion am nwyddau ffug sy'n cael eu gwerthu mewn llefydd fel marchnadoedd, Facebook, gwerthwyr preifat, eBay a Gumtree. Mae ymchwiliadau Safonau Masnach wedi arwain at atafaelu nwyddau ar raddfa fawr, ac mae profion a gynhaliwyd ar eitemau wedi canfod bod rhai teganau yn anniogel ac nad ydynt yn bodloni profion diogelwch y DU.

Eitemau brand gan gynnwys teganau Disney, Frozen a Minion yw rhai o'r cynnyrch sy'n cael eu copïo fwyaf. Mae Gwasanaethau Safonau Masnach Gogledd Cymru yn eich hannog i beidio â chael eich twyllo gan bris rhad. Mae'r nwyddau hyn yn debygol o fod wedi cael eu gwneud heb fawr o ystyriaeth o safonau diogelwch y DU. Os ydych yn prynu'r nwyddau hyn ar gyfer eich plant eich hun, eich teulu neu'ch ffrindiau, ydych chi wir am eu rhoi mewn perygl?

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â nwyddau ffug yn cynnwys llindagu, peryglon tagu, adweithiau cemegol gan gynnwys llosgiadau, tanau trydanol a sioc trydanol o wifrau a phlygiau, ac adweithiau wrth lyncu neu ddod i gyswllt â chydrannau gwenwynig. Mae'r rhain yn gynnyrch israddol sy'n aml yn beryglus ac yn costio mwy i'r prynwr yn y pen draw.

Mae risgiau go iawn gyda'r nwyddau hyn, a dyma pam y mae Gwasanaethau Safonau Masnach Gogledd Cymru yn awyddus i dynnu sylw at beryglon prynu nwyddau ffug.

Dywedodd Kevin Jones, Cadeirydd Grŵp Safonau Masnach Gogledd Cymru: "Mae nwyddau ffug yn peri risg, ond yn fwy felly gyda theganau oherwydd yr oedran a dargedir. Mae Safonau Masnach wedi gweld cynnydd yn y mathau hyn o nwyddau ar werth ar-lein yn y blynyddoedd diwethaf.

"Yn y cyfnod cyn y Nadolig, rydym yn parhau â'n gwaith i gael gwared ar y nwyddau hyn o'r gadwyn gyflenwi a byddwn yn cymryd camau yn erbyn unrhyw un sy'n cael eu dal yn eu gwerthu. Mae ein cyngor yn syml, peidiwch â'u prynu. Ewch at fusnesau ag enw da sy'n cefnogi'r economi leol ac yn cael eu monitro gan Safonau Masnach."

Os yw unrhyw un yn dymuno rhoi gwybod am nwyddau ffug sydd ar werth, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Safonau Masnach lleol neu'r llinell gyngor Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar 03454 04 05 06.

## Un funud fach ...

# Y GWESTY

Dyw'r gwaith ar y gwesty newydd ddim i fod i ddechrau tan fis Chwefror ond mae o leiaf ddeg ar hugain o westeion yno'n barod. Wnaethon nhw ddim archebu lle yn y gwesty dros y ffôn neu ar-lein, a chawson nhw mo'u gwahodd i fynd yno. Gweld eu cyfle wnaethon nhw, a cherdded i mewn i'r lle. O bosib eu bod hyd yn oed wedi torri i mewn i'r lle. Yn sicr, doedden nhw ddim i fod yno. Ond yno maen nhw, ac yno y byddan nhw dros y gaeaf.

Y disgwyl oedd y byddai perchnogion y gwesty arfaethedig yng nghanol Manceinion yn ceisio cael gwared â'r bobl hyn o'r adeilad. Ond nid felly y bu. O weld y bobl ddigartref wedi symud i mewn i'r adeilad gwag y bwriedir ei ddatblygu yn westy'n moethus, penderfynodd y cyn-beldroedwyr Gary Neville a Ryan Giggs adael iddyn nhw aros yno dros y gaeaf nes bydd y gwaith adnewyddu yn cychwyn ym mis Chwefror. Roedd hynny'n newyddion annisgwyl i'r bobl eu hunain, ac roedden nhw'n fwy na pharod i addo gwarchod yr adeilad a sicrhau na wneir unrhyw niwed iddo tra byddan nhw'n byw ynddo dros yr wythnosau nesaf.

Mae'n rhaid canmol ac edmygu'r perchnogion am yr hyn a wnaethon nhw. Doedd dim rhaid iddyn nhw roi caniatad i'r bobl aros yno. Yn ôl a ddeallaf, mae Gary Neville wedi datgan cefnogaeth i bobl ddigartref cyn hyn, ac mae'r weithred hon yn dangos yn glir fod y gefnogaeth honno'n llawer mwy na geiriau yn unig. Wn i ddim beth yn union sy'n ei gymell ef a'i gyfaill, ond mae'r hyn a wnaeth yn sicr yn herio pob un ohonom i feddwl am ein hymateb ninnau i bobl anghenus.

Mae'r Arglwydd Iesu yn ein herio i ymateb i anghenion pobl. Mae'n ein herio yn benodol yn y Bregeth ar y Mynydd i ymateb i bobl sy'n dod ar ein gofyn. 'Rho i'r sawl sy'n gofyn gennyt, a phaid â throi i ffwrdd oddi wrth y sawl sydd am fenthyca gennyt' (Mathew 5:42).

Mae yna weithredoedd da yr ydym yn cynllunio i'w gwneud. Mae hynny'n sicr yn wir yn y bywyd Cristnogol. Fe'n gelwir i garu eraill, ac i wneud pob math o weithredoedd da er mwyn dangos ein cariad at Dduw ac at bobl, ac mae hynny'n golygu trefnu a mynd ati'n fwriadol i helpu ac i wasanaethu eraill. Ond mae'r Iesu yn ein herio hefyd i ymateb yn gadarnhaol pan ddaw eraill ar ein gofyn, a gweithredu er lles i eraill yng nghariad Crist.

JOHN PRITCHARD


WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN CIGYDDION Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574


ORIEL CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artisiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882



MOT
www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU
ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
BOSCH Car Service

# Ar ben arall i'r lein



Wel dyna ni unwaith eto, tymor arall wedi diflannu a, fel ddywedwyd mis diwethaf, mae pethau wedi bod reit dda ar y cyfan. Os bydd hi'n datblygu fel eleni yna mae rhagolygon am 2016 yn galonogol dros ben, hynny yw ymhobman heblaw y Padarn a'r Seiont. Dyma'r tymor gwaethaf mewn cof ar ddyfroedd yr hen ddyffryn 'ma. 'Rydym i gyd yn gwybod be ydi'r problemau ac nid problemau newydd yw rhain gan mewn difri maent wedi bod yn rhedeg ers 1992 gyda rhyw gynffon yn ymddangos ei hunan yn 2009. 'Rwy'n cofio yn iawn mewn cyfarfod o Fforwm Padarn, a sefydlwyd ar ddiwedd y flwyddyn honno, a swyddogion Dŵr Cymru dadlau'n gyhoeddus eu bod yn hollol ddieuog o fod yn rhan o'r problemau.

Mae cyfarfodydd go rheolaidd o'r Fforwm wedi eu cynnal dros y blynyddoedd a cham wrth gam mae agwedd y cwmni dŵr wedi meddalu'n eithriadol. Yn ystod cyfarfod diweddaraf o'r Fforwm ar brynhawn Gwener, 16 Hydref, cawsom wybodaeth am gynlluniau diweddaraf y cwmni at wella gweithfeydd carthffos y fro.

Dyma adroddwyd: Gwaith newydd i'w adeiladu yn Nant Peris i fod yn barod erbyn diwedd Mawrth 2016. £400,000 i'w wario ar uwchraddio gwaith carthffos Penisarwaun a £300,000 i fynd at adnewyddu gwaith Dinorwig. Mae gwaith Llanberis i gael ei uwchraddio yn ychwanegol gyda pheirianwaith trin ffosffadau i'w fewnforio o'r America. Mae peiriant twnelu i'w symud o Dde Cymru er mwyn twnelu yn ardal Llainwen, i hwyluso datgyfeirio'r afon o'r sustem garthffos. Bydd cost y gwaith yma yn y miliynau.

Cofiwch heb ymdrech y Gymdeithas a'n cynrychiolwyr 'Fish Legal' y tebygrwydd yw na fuasai dim o'r gwaith yma wedi ei gyflawni.

Mae hyn i gyd yn golygu y bydd llawer llai o ffosffadau'n llifo i'r dyfroedd, hefyd bydd gostyngiad sylweddol o'r defnydd ar y pibellau arllwys argyfyngol sy'n dal i arllwys carthion amrwd i'r llyn. Yndi mae hyn yn golygu llai o ffosffadau, ond yr ateb yw dim ffosffadau o gwbwl. Y broblem â hyn yw y buasai'n rhaid pibellu'r carthion o'r ardal, a diwedd y gân yw'r geiniog. Yn syml, buasai hyn yn costio gormod.


Y broblem sydd yn ein wynebu yw fod y ffosffadau sydd yn barod ar waelod y llyn yn dal i gael eu hadnewyddu gyda beth sy'n arllwys yno heddiw. Golyga hyn bod y ffosffadau neu'r algi yn tynnu ocsigen o'r dŵr, felly does dim digon ar ôl i'r pysgod, yn enwedig y torgoch. Er yr holl welliannau sydd ar y gweill does dim ateb o gwbwl i pan fydd sefyllfa ocsigen y llyn yn gwella. Cofiwch fe ddylai'r mater yma fod wedi ei setlo yn 1992 ac wedyn yn 2009. Fel ac y mae, mae wedi cymryd chwe blynedd arall i ddod i'r sefyllfa bresennol ac mae'r bysgodfa yn dal i ddirywio.

Ein cam nesaf yn yr ymdrech i gael gwelliannau pendant fydd yr achos yn yr uchel lys yng Nghaerdydd ymhen rhyw fis. Siwrnai arall, yn ôl pob golwg. Pam 'dwch fod popeth yn ymwneud â ni yma yn y gogledd yn cael ei benderfynu bron i ddau gan milltir i ffwrdd - diolch am yr hen awyren 'na, neu mi fuaswn wedi drysu'n lân yn dreifio nôl ag ymlaen.

Cyn cloi mae'n rhaid sôn rhyw ychydig am y 'sgota neu mi fydda i'n ei chael hi o aml gyfeiriad. Eleni mae wedi bod yn eithriadol o heulog dros yr wythnosau yn rhedeg at ddiwedd tymor. Dyma'r amser o'r flwyddyn y byddai'r hen dyddynwyr yn cyfeirio ato fel 'Naw Nos Olau', sef amser ble 'roedd yn bosib, ac mi roeddynt yn ei weithredu - sef hel rhan o'r cynhaeaf dan olau'r lleuad. Wel eleni, a dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd imi weld y lleuad mor llawn ble 'roedd bosib gwneud hyn. Pa bryd glywsoch chwi rhywun yn cyfeirio at yr adeg yma o'r flwyddyn fel 'naw nos olau' tybed? Peidiwch ac anghofio'r hen ddywediadau 'ma da chi.

Wel dyna ni, a dwi di osgoi'r pysgota unwaith eto. Gobeithio adrodd mis nesaf bod nifer dda o bysgod ar y gwlâu claddu, a bod arddangosfa dda o frithyll wedi bod o dan bont yr Afon Goch yng nghanol Llanberis.

Huw Price Hughes



*Tomos Morgan*



*Carwyn Owen*

Penllanw'r tymor rhedeg mynydd yw Pencampwriaethau Rasys Cyfnewid Prydain ddiwedd fis Hydref bob blwyddyn. Mae'r rhain wedi eu cynnal yn Llanberis deirgwaith yn eu hanes, ond eleni rhaid oedd teithio i ardal y gwrachod yn Swydd Gaerhirfryn. Clwb Rhedeg Mynydd Calder Valley oedd yn eu trefnu, gyda'r holl rasys yn cael eu rhedeg mewn lleoliadau gwahanol ar Pendle Hill. Oherwydd cyfyngiadau parcio ym mhentref bychan Barley, tri thim oedd yn bosib i bob clwb ei anfon i'r gystadleuaeth. Roedd gan Glwb Rhedwyr Eryri dim dynion, tim dynion dros 40 oed a thim merched, ac er na enillwyd gwobrau, cafodd y tri thim gystadleuaeth dda. Roedd nifer o redwyr lleol yn y timau, gan gynnwys Bronwen Jenkinson a'i thad Paul (Waunfawr), Jim Bacon (Llanberis), Dyfed Thomas (Llanrug), a Rory O'Donnell (Bethel) a'i frawd Hugh.
Ond roedd achos i ddathlu yn Pendle hefyd, oherwydd daeth Matthew Roberts (Llanberis) oddi yno gyda medal aur, gan ei fod yn rhan o dim Calder Valley a enillodd y gystadleuaeth.
Yma yng ngogledd Cymru mae un ras fynydd arall yn aros, a Phenmaenmawr fydd y gyrchfan ganol fis Tachwedd.

## Rasys ffyrdd

Ym myd y rasys ffyrdd, roedd Matthew yn fuddugol hefyd yn ail ras Cynghrair y 'Borders' yn Ellesmere. Yn yr un ras, anfonwyd Alun Vaughan ar y trywydd anghywir gan un o'r stiwardiaid, ac ni chwblhaodd y ras. Cychwyn anffodus iddo ar ei daith yn ol wedi anaf.
Mae Marathon Eryri yn cael ei chynnal ar benwythnos gosod y rhifyn hwn, a chawn yr hanes yn y rhifyn nesaf.


## ESIAMPL I NI GYD

Mae sawl tymor bellach ers i ni groniclo camp Manon Lloyd Williams yn ennill cap pêl-droed cenedlaethol.Y ferch gyntaf o Fro'r Eco i gyflawni'r gamp – sydd wedi ei efelychu ers hynny. Ennillodd gap rygbi hefyd. Gwelir ei henw yn aml ar restrau rasus lleol. Yna, ym myd hoci mae'n cyfrannu i ddatblygiad chwaraewyr ieuanc Clwb Hoci Caernarfon yn ail adran Cynghrair Gogledd Cymru. O adnabod Manon bydd y tîm yn gystadleuol iawn. A hefyd ei chyfraniad yn ei milltir sgwar fel hyfforddwr tim dan 9 Llanberis. Roedd hi yno gyda'i thîm yng nghystadleuaeth Tlws yr Eco eleni. A'r noson ganlynol yn rhedeg y siop yn ystod y gystadleuaeth -11. Mae digon o 'jiws' yn y tanc o hyd yn amlwg.


Tim Hoci Blwyddyn 9 Ysgol Brynrefail sydd wedi dechrau'r tymor yn addawol.

## YN Y CWPAN O HYD

Bu cryn ddiddordeb yn Nhlws Cymdeithas Cymru dros y tymhorau diwethaf, gyda'r Tlws yn dod i Eithin Duon, a'r gêm ryfeddol rhwng Llanrug a Llanberis y llynedd. Y trydedd rownd oedd hi'n ddiweddar. Cafwyd chwip o gêm ar Eithin Duon gyda Llanrug a Bae Treaddur yn gyfartal 3-3 wedi amser ychwanegol. Yn anffodus, colli ar giciau o'r smotyn fu hanes Llanrug, a hynny o 4-3.
Croesawu Dyffryn Nantlle i Faes Padarn oedd Llanberis. Er mewn cynghrair is na Llanberis mae hogia Maes Dulyn ar rediad da. Argoeli am her i'r Darans felly. A dyna a fu, gyda gôl hwyr Steffan Jones yn cipio buddugoliaeth o 2-1 i'r tîm cartref. Yn y rownd nesaf bydd Llanberis yn teithio i Lannau Dyfrdwy i wynebu Greenfield, sydd ar hyn o bryd yn arwain ail adran y Welsh Alliance. Mae Greenfield gyda record cant y cant yn y gynghrair ar hyn o bryd wedi wyth gem. Wedi amser ychwanegol aeth Greenfield trwodd draw yng Nghintyn yn y Canolbarth.
Yng nghanol tabl Cynghrair Gwynedd mae'r Waunfawr wedi deg gêm. Cafwyd gem agos iawn yn y 'darbi' ym Montnewydd ond colli o 3-2 oedd hanes y Beganifs. Fel y llynedd fe ddaw y cwpanau cyn bo hir i danio yr hogia.



## Pencampwr Prydain.

Kieran Forrest o Lanrug (sydd wedi cael sylw yn rhifynnau diwethaf yr "Eco"), yw Pencampwr Iau Dringwyr Prydain yn dilyn ei fuddugoliaeth yn Sheffield yn gynharach ym mis Hydref.
Mae eisoes wedi cystadlu fel aelod o dim Prydain eleni, a hynny yn Awstria, yr Almaen a'r Eidal. Ac yntau newydd ddathlu ei benblwydd yn bedair ar ddeg oed, mae'n cael ei gyfrif y pymthegfed dringwr gorau dan bymtheg oed yn Ewrop. Mewn cystadleuaeth ym Mhencampwriaeth Ieuenctid y Byd, daeth yn safle 41 allan o 90 o ddringwyr eraill.
Dros wyliau hanner tymor cafodd y cyfle i ymarfer yn Kalymnos, Gwlad Groeg, gyda'r bwriad o wella ei sgiliau dringo er mwyn cael ei ddewis i dim ieuenctid Prydain yn 2016.



**Jac Burman** o Lanrug sydd wedi ei ddewis am dreialon gyda thim bechgyn Cymru.



# HANES Y GÊM BELDROED.

Bu sawl un yn dyfalu pa 'spin-offs' fydd yn deillio o lwyddiant ein tîm pêl-droed cenedlaethol yn cyrraedd rowndiau terfynol Ewrop 2016. Yn sicr, rydym ar y map bellach a bydd elw ariannol. Bydd arian teledu yn chwyddo a bydd modd apelio at fwy o noddwyr. Bydd gwerthiant crysau yn cynyddu.

Y brif ddadl fydd beth i wneud â'r arian. I rai cefnogi gwreiddiau'r gêm.Gwella cyfleusterau. Mwy o feysydd 3G. Mwy o nawdd i'r Gynghrair Genedlaethol. Yna, ble i chwarae'n gemau cartref? Aros – fel yw dymuniad y chwaraewyr – yn Stadiwm Dinas Caerdydd, neu elwa o dorfeydd mwy yn Stadiwm y Mileniwm? Beth bynnag y penderfyniad, bydd y cefnogwyr yn gobeithio y bydd y Gymdeithas yn cadw'r prisiau tocynnau mor rhesymol ag ydynt ar hyn o bryd.

Un "spin-off" fydd cryn ddilyn arni yw cyfres ar hanes a datblygiad y gêm yng Nghymru mewn cyfres o 6 rhaglen gan Gwmni Da ar S4C ar nos Fawrth. Dewi Prysor y llifeiriant geiriol gwerinol fydd y prif gyflwynydd. Ond bydd cyfraniad pwysig gan ddau arall o Fro'r Eco. Y cynhyrchydd yw Euros Wyn o'r Waunfawr. Yn cynorthwyo Dewi i ddadansoddi twf, apêl a chymeriadau'r gêm bydd Meilir Emrys, yr hanesydd chwaraeon o Fethel. Rwyn siwr bydd bwriad yn y rhaglen i edrych ar yr hanes trwy lygaid y 'ffyddloniaid' – hogia sefyll ar y lein bob Sadwrn, ym mhob tywydd. Pwysig fydd edrych ar wreiddiau'r gêm a'i pharodrwydd i gynnal y 'llwyddiant' hir ddisgwyliedig.

Rwyf wedi llunio'r erthygl hon cyn dangos y rhaglen gyntaf. Rwyn ddiolchgar i Gwmni Da am ryddhau ambell wybodaeth a llun y cyflwynwyr. Efallai caf lunio erthygl arall ar ddiwedd y gyfres i fynegi barn bersonol, ac efallai barn rhai ohonnoch chwi'r gwylwyr.

Cawn ein harwain ar hyd sawl llwybr o'r cychwyn cyntaf a sefydlu'r Gymdeithas. Rhoi'r sylw i hanes y tîm cenedlaethol – ei 'boddi wrth ymyl y lan' cyson, 1958 ffodus, a gwawr newydd, efallai.

Rhaglen ddadleuol mae'n siwr fydd ymhel a'r ddadl oesol – prun yw'r gêm genedlaethol? Pa ffactorau effeithiodd ar ddatblygiad y gêm? Os yw dilyn pêl-droed yn 'grefydd', pam y gwrthwynebiad oesol gan Anghydffurfiaeth hyd heddiw? Gemau ar y Sul, nid Ysgol Sul?

Ninnau yn yr Eco yn ateb apêl Gareth Roberts am feysydd coll timau Bro'r Eco, beth am feysydd diflanedig Cymru – Parc Ninian, Y Vetch, Parc Somerton, Ffordd Farrar? Beth yw barn y cefnogwyr? Rwyn gwybod am rai sy'n gwrthod mynd i Nantporth i gefnogi Bangor. A sôn am feysydd coll. Cawn wybod am rai meysydd 'rhyfedd' ble chwaraeodd Cymru gemau rhyngwladol.


Beth am ymddygiad – chwaraewyr a chefnogwyr. Ydy'r sefyllfa yn well yn oes y ffansins a'r cyfryngau cymdeithasol?

Ac ni ellir cynnal y fath gyfres heb son am gymeriadau'r gêm. Mae gan bob ardal ei Darw Nefyn, Orig, Emrys Coch a Brian Corbri. Ei Gwil Bach ffyddlon i un clwb. Sawl Arthur Picton a Wali Tomos.

Digon i gnoi cil, a chyfnod i edrych ymlaen ato. Ac yn sicr, testun trafodaeth, gobeithio.

# Gair o gyngor…

Phil Lynes, Rheolwr Ail Dim Llanrug yn rhoi gair o gyngor i Gareth Bale cyn y gem yn erbyn Andorra yng Nghaerdydd







….. ond mae'n ymddangos ei fod eisoes wedi cael gair o gyngor gan Chris Coleman, Rheolwr Cymru, ychydig ynghynt!

# Chwaraeon

## Llwyddiant Karate



Ar y 3ydd o Hydref dyfarnwyd statws 6ed Dan (cydnabyddiaeth uchel iawn yn y byd Karate) i Sara Salisbury Roberts. Mae Shihan Sara yn rhedeg ei chanolfan Karate yn Llanberis ac, i ddathlu 20 mlynedd yn dysgu yn y maes, cynhaliwyd noson arbennig yn Ysgol Pendalar nos Wener, Hydref 9fed. Daeth dros 150 o deulu, ffrindiau a myfyrwyr i fwynhau arddangosfeydd arbennig gan yr hyfforddwyr a sgyrsiau difyr gan fentoriaid Sara o Lundain. Ar y noson derbyniodd 'Burmans Martial Arts' (cwmni Sara) gydnabyddiaeth Buddsoddwyr Mewn Pobl.
I ddathlu yr 20 mlynedd mae Burmans Martial Arts yn cynnig 20 tocyn i gael hyfforddiant Karate, Bocsio Cic, Krav Maga, HEART a Dosbarth Bag am ddim am fis. Am fanylion pellach cysylltwch ar 07833938718

### Dewch i gefnogi Wrecsam.

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynd i weld Clwb Pel Droed Wrecsam yn chwarae, mae Goronwy Hughes, sydd wedi cefnogi'r Clwb am dros bum-deg o flynyddoedd yn trefnu bws i fynd a chefnogwyr o Wynedd ac Ynys Môn i'r gemau cartref.
Bydd y bws yn cychwyn o Lanberis a chodi teithwyr yn Llanrug, Caernarfon, Llanfairpwll, Bangor ac ambell le ar yr A55. Gobeithir cychwyn am 11:00 y bore a chyrraedd Wrecsam tua un o'r gloch. Mae hyn yn cael ei drefnu ar gyfer cefnogwyr y tim peldroed ond bydd croeso i rai sydd yn teimlo fel gwneud tipyn o siopa yn Wrecsam ddod ar y bws hefyd. Bydd y bws yn rhoi'r cefnogwyr i lawr ger y Cae Ras ac yn mynd a'r siopwyr ymlaen i ganol y Dre ac yn eu codi am bump o'r gloch, sef ar ôl i'r gem orffen. Os oes digon o ddiddordeb, bydd y gwasanaeth yn dechrau fis Tachwedd.
Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch efo Goronwy drwy ebostio bwscaeras@gmail.com neu drwy ffonio 07899825505.




## Sawru'r Awyrgylch

I 'ddathlu' gorffen fy nghyfnod o driniaeth dyddiol ym Manceinion es draw i Gaerdydd am wythnos. Ac am wythnos, gyda'r gair AWYRGYLCH yn cloriannu'r cyfan.
Y noson gyntaf es i weld Cymru yn curo Andorra o 2-0 a'r stadiwm dan ei sang. Noson o ddathlu cyrraedd Ewrop 2016 oedd hon, ac er y buasai'r dorf wedi mwynhau mwy o goliau yn erbyn amddiffyn 11 dyn Andorra roedd yr awyrgylch yn drydanol. Caneuon a'r Anthem Genedlaethol yn ein diffinio fel yr awgryma slogan y Gymdeithas ar gyfer y gystadleuaeth – GYDA'N GILYDD YN GRYFACH. Rhaid cynnal yr elfen o Gymreigrwydd yma yn sicr.
Am weddill yr wythnos Cwpan Rygbi y Byd oedd yn hawlio sylw. Gyda thimau Seland Newydd, Ffrainc, Iwerddon a'r Ariannin yn cystadlu yn y rownd go-gyn derfynnol roedd y ddinas yn ferw. Dyma fy mhrofiad cyntaf i o Gwpan Rygbi y Byd. Mae'n anhygoel faint oedd yn dod i gefnogi gan gynhyrchu incwm rhyfeddol. Er cwyn gyffredin oedd am brisiau drud llety a thocynnau. Roedd y 'touts' ym mhob man. £300 am ddau docyn oedd un pris welais i. O ble mae'r touts yma'n cael tocynnau os gwn i. Efallai mai cefnogwyr Lloegr oedd yn eu rhyddhau.
Ynglyn â'r gemau, ar y teledu roeddwn i'n gwylio. Roedd sawl un yn canmol perfformiadau Cymru. Dylsid fod wedi trechu Awstralia oedd y gred gyffredinol. Erbyn gêm De'r Affrig roedd colli ambell i chwaraewr creadigol drwy anaf yn llesteirio ein gallu i groesi'r llinell gais. Gyda llaw, roedd datganiad o'r Anthem yn y Mochyn Du cyn gem De'r Affrig yn anhygoel. Roedd y Gwyddelod a'r Kiwis a'r Ffrancod oedd yno methu credu'r peth. Hefyd y dagrau wedi'r gem.
Uchafbwynt oedd perfformiad y Crysau Duon yn erbyn Ffrainc. Mae'n gwestiwn os gwelwyd rygbi ar y fath gyflymdra o'r blaen. Hefyd, symylrwydd eu tactegau yn ddibynol ar ffitrwydd, cyflymdra, trafod y bel gan bob aelod a'r cefnogi rhyfeddol i'r sawl gyda'r bel. Bydd pob hyfforddwr arall yn astudio'r gem yma yn ddios.
Y mis diwethaf roeddwn yn awgrymu bod y TMO yn mynd yn or-bwysig ac yn tanseilio awdurdod y dyfarnwr. Yna, yr Alban yn dioddef cam erchyll am fod y dyfarnwr yn cymeryd y penderfyniad drosto'i hun.Duw a wyr beth fuasai wedi digwydd os buasai hyn wedi digwydd i Gymru. O ran dyfarnwyr roedd pob cefnogwr yn gytun mai Nigel Owens, ar sail ei gysondeb, arddull a chysylltu eglur a'r chwaraewyr ddylsai ddyfarnu y rownd derfynol.